# Datganiad Polisi Trwyddedu Cyngor Sir Penfro

**Mehefin 2026**

## Deddf Trwyddedu 2003

**Gellir cael rhagor o wybodaeth gan: Y Tîm Trwyddedu**

**Is-adran Diogelu'r Cyhoedd, Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro**

**SA61 1TP**

**E-bost: licensing@pembrokeshire.gov.uk Gwefan: www.sir-benfro.gov.uk**

**Mae'r polisi hwn hefyd ar gael yn Saesneg neu mewn print bras ar gais i'r Tîm Trwyddedu.**

**Cynnwys**


1. Cyflwyniad....3
2. Proffil y sir ....4
3. Y Pwyllgor Trwyddedu ....6
4. Egwyddorion sylfaenol ....7
5. Parthau ac oriau trwyddedu ....7
6. Galw masnachol....11
7. Niwed alcohol....11
8. Cyffuriau....14
9. Amcanion trwyddedu....16
10. Atal trosedd ac anhrefn ....16
11. Atal niwsans cyhoeddus....18
12. Diogelwch y cyhoedd ....21
13. Diogelu plant rhag niwed....23
14. Hawl i wneud sylwadau....26
15. Awdurdodau cyfrifol....27
16. Personau eraill ....27
17. Integreiddio strategaethau ....28
18. Trwydded bersonol....33
19. Trwydded mangre....35
20. Tystysgrif mangre clwb ....36
21. Hysbysiadau digwyddiadau dros dro ....37
22. Gwerthu a chyflenwi alcohol ....38
23. Adloniant wedi'i reoleiddio....39
24. Gweinyddiaeth ....42
25. Gweithdrefnau ymgeisio....43
26. Amserlen weithredu ....47

27. Amodau ....48

28. Ceisiadau pan geir sylwadau ....49

29. Ymarfer a dirprwyo swyddogaethau ....53

30. Adolygiadau o drwyddedau ....30

31. Polisi effaith gronnus ....57

32. Gorchmynion cyfyngu ben bore ....57

33. Gwrandawiadau ....59

34. Apeliadau ....59

35. Gweithredu penderfyniad y Llys Ynadon ....60

36. Gorfodi ....60

37. Ffioedd yn gyffredinol ....61

38. Ardollau hwyr y nos ....62

39. Mwy o wybodaeth ....62

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Deddf Trwyddedu 2003 (y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor, wrth gyflawni ei rôl fel yr awdurdod trwyddedu, gyhoeddi "polisi trwyddedu" sy'n nodi'r polisïau y bydd y cyngor yn eu cymhwyso yn gyffredinol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu wrth wneud penderfyniadau am geisiadau a wneir o dan y Ddeddf. Dyma'r datganiad polisi hwnnw, a baratowyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf a'r fersiwn ddiweddaraf o ganllawiau'r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd o dan adran 182 o'r Ddeddf. Cymeradwyodd y cyngor y polisi trwyddedu hwn ar 25 Mai 2021, a daeth i rym ar 28 Mehefin 2021.

1.2 Cyngor Sir Penfro ("y cyngor") yw'r awdurdod trwyddedu o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac mae'n gyfrifol am roi trwyddedau mangre, tystysgrifau mangre clwb a thrwyddedau personol mewn perthynas â gwerthu a/neu gyflenwi alcohol a darparu adloniant wedi'i reoleiddio a lluniaeth hwyr y nos. Drwy gydol y ddogfen, cyfeirir at y cyngor fel yr awdurdod trwyddedu pan fo'n briodol, er mwyn atal dryswch rhwng y rôl hon a'r swyddogaethau eraill a gyflawnir gan y cyngor.

1.3 Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd ceisiadau am drwyddedau, sy'n ofynnol gan Ddeddf Trwyddedu 2003, yn cael eu hystyried gan yr awdurdod trwyddedu.

1.4 Wrth ddatblygu'r polisi trwyddedu hwn, mae cyngor cyrff megis Cymdeithas Llywodraeth Leol (CLL), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac amrywiol gymdeithasau masnach wedi'i ystyried lle bynnag y bo'n bosibl. Bu swyddogion hefyd yn gweithio mewn cydweithrediad â'r pedwar awdurdod lleol sy'n rhan o Ddyfed a Phowys, er mwyn sicrhau unffurfedd lle bynnag y bo modd ac i helpu i sicrhau bod y gwahanol bolisïau yn cael eu hintegreiddio dros ardal ddaearyddol ehangach. Mae polisïau corfforaethol eraill a fabwysiadwyd gan y cyngor hefyd wedi cael eu hystyried, a chyfeirir at y rhain drwy gydol y ddogfen hon yn ôl yr angen.

1.5 Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 fesurau i fynd i'r afael â gwahaniaethu y mae unigolion anabl yn ei wynebu mewn rhai meysydd, gan gynnwys cyflogaeth a mynediad at nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau. Dylai'r ymgeisydd roi sylw i'r ddeddfwriaeth hon. Fodd bynnag, ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn defnyddio trwyddedu i fynd ar drywydd materion o'r fath, ac eithrio pan gânt eu cefnogi gan ddeddfwriaeth ac arfer da derbyniol.

1.6 Mae gan y cyngor rwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth sy'n hyrwyddo cydraddoldeb. Bydd trwyddedu personau a mangreoedd o dan y Ddeddf yn hyrwyddo cydraddoldeb gwasanaeth a gorfodi i holl aelodau'r gymuned yn weithredol.

1.7 Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i awdurdod lleol weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawl o'r fath. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y Ddeddf Hawliau Dynol wrth ystyried unrhyw faterion trwyddedu, ac yn enwedig o ran y ffordd y mae ceisiadau'n cael eu hystyried a gweithgareddau gorfodi'n cael eu cynnal.

1.8 Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau unigol, gan ystyried y polisi hwn, y Ddeddf, a chanllawiau'r Swyddfa Gartref a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan y Ddeddf hon.

1.9 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod y gallai fod angen iddo wyro oddi wrth y polisi hwn a'r canllawiau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf mewn amgylchiadau unigol ac eithriadol, pan fo'r achos yn haeddu penderfyniad o'r fath er budd hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Gwneir unrhyw benderfyniad o'r fath ar ôl ymgynghori â'r cynghorwyr cyfreithiol priodol ar gyfer yr awdurdod trwyddedu a chofnodir y rhesymau dros unrhyw wyriad o'r fath yn llawn.

1.10 Ni fydd y polisi trwyddedu yn ceisio rheoleiddio materion y darperir ar eu cyfer mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall a bydd yn ceisio ategu cyfundrefnau o'r fath, e.e. cynllunio, iechyd a diogelwch, hawliau cyflogaeth, diogelu rhag tân, ac ati.

1.11 Mae'r awdurdod trwyddedu yn dymuno annog trwyddedeion i ddarparu ystod eang o weithgareddau adloniant yn Sir Benfro drwy gydol eu horiau agor ac i hyrwyddo cerddoriaeth fyw, dawns, theatr ac ati er budd diwylliannol ehangach y gymuned.

1.12 Bydd yr awdurdod trwyddedu hwn yn diweddaru ac yn cyhoeddi polisi trwyddedu newydd pryd bynnag y bo angen, ond ym mhob achos o fewn **pum mlynedd** i ddyddiad y polisi hwn, a bydd yn ymgynghori'n llawn ag awdurdodau cyfrifol, partneriaid, deiliaid trwyddedau, cymdeithasau masnach, a grwpiau busnes a thrigolion fel sy'n briodol ar yr adeg honno. Bydd unrhyw sylwadau sy'n dod i law yn cael eu hystyried ar yr adeg honno. Fodd bynnag, pan fydd diweddariadau oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth genedlaethol, canllawiau statudol neu fanylion cyswllt, mae'r cyngor yn cadw'r hawl i ddiwygio'r polisi hwn heb ymgynghori er mwyn sicrhau bod y polisi'n adlewyrchu deddfwriaeth genedlaethol neu ganllawiau statudol. Bydd unrhyw ddiwygiadau a wneir yn cael eu cyhoeddi.

## 2. Proffil y sir

2.1 **Sir Benfro**

Mae gan Sir Benfro boblogaeth o ryw 125,000 ac mae'n wledig ei chymeriad yn bennaf. Mae gan yr awdurdod lleol chwe phrif dref, sef Abergwaun, Hwlffordd, Aberdaugleddau, Dinbych-y-pysgod, Penfro a Doc Penfro, wedi'u hamgylchynu gan nifer o bentrefi, pob un â'i gymeriad unigol ei hun.

2.2 Mae tua 950 o fangreoedd wedi'u nodi yn y sir sy'n dal amrywiaeth o drwyddedau a thystysgrifau ac yn darparu adloniant wedi'i reoleiddio a/neu alcohol i'w fanwerthu o dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Mae yna sawl clwb preifat, ychydig o sinemâu, a nifer o fangreoedd sydd ar agor yn hwyr yn y nos. Mae lleoliadau lleol eraill, megis neuaddau pentref, neuaddau cymunedol a neuaddau ysgol, hefyd yn darparu gweithgareddau diwylliannol ar gyfer llawer o'r ardaloedd.


2.3 Mae portffolio digwyddiadau yn y sir yn parhau i ddatblygu, a chynhelir nifer o wyliau awyr agored a digwyddiadau chwaraeon awyr agored proffil uchel. Mae'r cyngor yn ceisio denu digwyddiadau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol i'r sir, gan gydnabod y buddion diwylliannol, cymunedol ac economaidd y mae'r digwyddiadau hyn yn eu cynnig.

2.4 Mae llawer o dafarndai yn y sir sydd y tu allan i'r prif drefi, ac mae llawer o'r rhain yn y pentrefi gwledig bach ac yn darparu canolbwynt ar gyfer bywyd cymunedol. Mewn achosion eraill, gall siopau bach a siopau sy'n gwerthu alcohol ddarparu'r canolbwynt hwn. Mae'r mangreoedd lluniaeth hwyr y nos wedi'u lleoli yn bennaf yn y prif drefi.

2.5 Oherwydd natur wledig y sir, mae mangreoedd a digwyddiadau sydd wedi'u trwyddedu o dan y Ddeddf yn gwneud cyfraniad hanfodol i'r economi leol, trwy dwristiaeth a datblygiad diwylliannol. Roedd 55,600 o unigolion yn Sir Benfro yn cael eu cyflogi rhwng Ionawr 2024 a Rhagfyr 2024, sy'n cyfateb i 72.9%. Mae hyn yn cymharu â 73% yng Nghymru a 75.5% ym Mhrydain Fawr (Nomis http://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/1946157391/report.aspx#tabempunemp ). Mae gan Sir Benfro grynodiadau sylweddol o gyflogaeth yn y meysydd canlynol: llety a gwasanaeth bwyd; y celfyddydau, adloniant a hamdden; adeiladu; a diwydiannau echdynnol.

2.6 Mae gan y diwydiant twristiaeth effaith sylweddol ar y boblogaeth ar adegau penodol o'r flwyddyn. Yn ôl gwefan Twristiaeth Sir Benfro, Croeso Sir Benfro , mae twristiaeth yn un o dri phrif philer economaidd Sir Benfro, ochr yn ochr ag ynni ac amaethyddiaeth. Mae'n cyfrannu swm rhyfeddol o £604 miliwn i'r economi leol bob blwyddyn, gan fwy na 6.3 miliwn o ymwelwyr, ac yn cefnogi 23% o'r holl gyflogaeth leol. Mae niferoedd sylweddol yn gweithio mewn llety gwyliau a meysydd gwersylla, atyniadau twristaidd, bwytai a chaffis, a chlybiau, tafarndai a bariau.

**Ffigur 1: Ardal Cyngor Sir Penfro**




## 3. Y Pwyllgor Trwyddedu

3.1 Bydd y cyngor yn penodi pwyllgor trwyddedu yn unol â'i gyfansoddiad.

3.2 Mae'r Pwyllgor Trwyddedu wedi sefydlu is-bwyllgorau (paneli), sy'n cynnwys tri aelod o'r pwyllgor, i ystyried ceisiadau pan fo sylwadau wedi dod i law gan awdurdodau cyfrifol a/neu unrhyw bersonau eraill.

3.3 Bydd y Pwyllgor Trwyddedu a'r is-bwyllgorau hefyd yn eistedd i benderfynu ar geisiadau nad ydynt yn gysylltiedig â'r Ddeddf, megis trwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat.

3.4 Er budd llywodraethiant da, pan fydd gan gynghorydd sy'n aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu neu is-bwyllgor trwyddedu fuddiant ariannol neu bersonol uniongyrchol neu anuniongyrchol mewn unrhyw fater sydd ger ei fron, bydd wedi'i anghymhwyso rhag cymryd unrhyw ran yn y broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y fangre. Ni fydd cynghorydd yn eistedd ar is-bwyllgor i ystyried cais o fewn ei 'ward'.

3.5 Bydd yr is-bwyllgor trwyddedu yn cyfeirio at y Pwyllgor Trwyddedu unrhyw fater na all ymdrin ag ef oherwydd bod llai na thri aelod yn gallu ystyried y mater gerbron yr is-bwyllgor.

3.6 Rhaid i'r Pwyllgor Trwyddedu gyfeirio at yr 'awdurdod trwyddedu' [y cyngor] unrhyw fater na all ymdrin ag ef oherwydd bod llai na'r cworwm o aelodau yn gallu ystyried y mater sydd gerbron y pwyllgor.

3.7 Rhaid i bob penderfyniad trwyddedu gan y Pwyllgor Trwyddedu neu is-bwyllgor trwyddedu gynnwys rhesymau dros y penderfyniad. Rhoddir gwybod am grynodeb o'r penderfyniad i'r partïon i'r gwrandawiad, o fewn amser targed o bymtheg diwrnod gwaith, ond gwneir ymdrech i wneud hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dyddiad y gwrandawiad.

3.8 Bydd swyddogion trwyddedu'r cyngor yn delio â phob cais am drwydded pan nad oes unrhyw sylwadau perthnasol wedi dod i law, neu pan fo sylwadau wedi dod i law a bod y partïon yn cytuno nad oes angen gwrandawiad.

3.9 Bydd adroddiad cyfnodol yn cael ei wneud i'r Pwyllgor Trwyddedu ynghylch arfer pwerau dirprwyedig.

3.10 Bydd y cyngor yn sicrhau bod aelodau a swyddogion perthnasol wedi'u hyfforddi'n briodol i gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.

3.11 Mae materion sy'n ymwneud â'r Ddeddf i'w trin fel y nodir yng nghynllun dirprwyo'r cyngor o dan ei gyfansoddiad (gweler adran 31).

## 4. Egwyddorion sylfaenol

4.1 Mae trwyddedu yn ymwneud â rheoli mangreoedd trwyddedig, clybiau cymwys a digwyddiadau dros dro o fewn telerau'r Ddeddf a gellir atodi amodau i drwyddedau, tystysgrifau a chaniatadau a fydd yn cwmpasu materion sydd o fewn rheolaeth trwyddedeion unigol.

4.2 Wrth ystyried yr amodau hyn, bydd yr awdurdod trwyddedu yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd mewn mangreoedd trwyddedig ar aelodau'r cyhoedd sy'n byw, yn gweithio neu'n ymwneud â gweithgareddau arferol yn yr ardal dan sylw.

4.3 Yn hyn o beth, mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod, ar wahân i'r swyddogaeth drwyddedu, fod nifer o fecanweithiau eraill ar gael i fynd i'r afael â materion a all ddigwydd y tu allan i'r fangre drwyddedig, gan gynnwys:

- rheolaeth gynllunio
- mesurau cadarnhaol parhaus i greu amgylchedd canol tref diogel a glân mewn partneriaeth â busnesau lleol, gweithredwyr cludiant, a chyfarwyddiaethau eraill yr awdurdod lleol
- darparu system gwyliadwriaeth teledu cylch cyfyng yng nghanol trefi a safleoedd tacsis, darparu cyfleusterau cyhoeddus sydd ar agor yn hwyr yn y nos, glanhau strydoedd, a chynnal patrolau sbwriel
- pwerau awdurdodau lleol i ddynodi rhannau o ardal yr awdurdod lleol fel mannau lle na chaniateir yfed alcohol yn gyhoeddus
- cyswllt rheolaidd â'r heddlu ynghylch materion gorfodi'r gyfraith mewn perthynas ag anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys cyhoeddi hysbysiadau cosb benodedig, erlyn y rhai sy'n gwerthu alcohol i unigolion sy'n feddw, atafaelu alcohol oddi wrth oedolion a phlant mewn ardaloedd dynodedig, a chau mangreoedd trwyddedig neu ddigwyddiadau dros dro ar unwaith ar sail anhrefn, neu debygolrwydd y bydd anhrefn, neu sŵn gormodol o'r fangre
- pŵer yr heddlu, awdurdodau cyfrifol eraill neu bersonau eraill i geisio adolygiad o drwydded neu dystysgrif

## 5. Oriau trwyddedu

5.1 Rhaid i'r awdurdod trwyddedu, drwy arfer ei swyddogaethau trwyddedu, beidio â cheisio cyfyngu ar oriau masnachu unrhyw fangre benodol oni bai fod hyn yn cael ei ystyried yn briodol i hyrwyddo un neu fwy o'r amcanion trwyddedu.

Mae paragraff 10.13 o ganllawiau adran 182 presennol Llywodraeth y DU yn nodi fel a ganlyn:

*"Mae Deddf 2003 yn rhoi'r pŵer i'r awdurdod trwyddedu wneud penderfyniadau ynghylch yr oriau y gall mangreoedd gynnal gweithgareddau trwyddedadwy fel rhan o weithredu ei ddatganiad polisi trwyddedu. Awdurdodau trwyddedu sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynghylch oriau agor priodol yn eu hardaloedd yn seiliedig ar eu gwybodaeth leol ac ar ôl ymgynghori ag awdurdodau cyfrifol. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau trwyddedu ystyried pob cais bob amser a rhaid iddynt beidio â gosod oriau agor trwyddedig wedi'u pennu ymlaen llaw heb roi ystyriaeth unigol i rinweddau pob cais."*

5.2 Yn absenoldeb unrhyw resymau penodol sy'n gysylltiedig â'r amcanion trwyddedu, ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn ceisio cyfyngu ar allu allfeydd adwerthu trwyddedig i werthu alcohol i'w yfed oddi ar y safle drwy gydol eu horiau masnachu cyffredinol. Enghraifft bosibl o achlysur pan allai cyfyngiad gael ei ystyried fyddai yn dilyn sylwadau gan yr heddlu bod siop yn hysbys fel canolbwynt ar gyfer troseddau ac anhrefn.

5.3 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod bod rhoi mwy o ddewis a hyblygrwydd i ddefnyddwyr yn ystyriaeth bwysig ac, mewn rhai amgylchiadau, gall oriau trwyddedu hyblyg ar gyfer gwerthu alcohol, lluniaeth hwyr y nos ac adloniant wedi'i reoleiddio helpu i osgoi torfeydd o gwsmeriaid yn gadael mangreoedd ar yr un pryd, a all yn ei dro leihau'r gwrthdaro mewn bwytai bwyd brys hwyr y nos a safleoedd tacsis a ffynonellau trafnidiaeth eraill a all arwain at droseddu, anhrefn ac aflonyddwch.

5.4 Wrth ymdrin ag oriau trwyddedu, mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod y gofyniad y bydd pob cais yn cael ei drin yn ôl ei rinweddau unigol. Serch hynny, er nad yw'r awdurdod trwyddedu yn dymuno atal datblygiad parhaus economïau lleol ffyniannus a diogel gyda'r nos yn ormodol, sy'n bwysig ar gyfer buddsoddiad a chyflogaeth yn lleol, mae'r awdurdod o'r farn ei bod yn hanfodol creu cydbwysedd priodol rhwng anghenion economaidd mangreoedd trwyddedig a hawliau trigolion lleol i allu mwynhau lefel resymol o lonyddwch a thawelwch ar adegau pan fo sŵn yn fwy o ystyriaeth ac i bobl eraill beidio â gorfod profi effeithiau economi'r nos. I'r perwyl hwn, mae'r awdurdod trwyddedu yn barod i ystyried nodi parthau yn ei ardal lle bydd oriau gweithredu ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu pennu. Bydd hyn yn cael ei gymhwyso os gwneir sylwadau ar gais oni bai fod yr is-bwyllgor trwyddedu wedi'i berswadio na fyddai'n briodol eu cymhwyso yn amgylchiadau'r cais.

5.5 Fodd bynnag, pan ddefnyddir ei ddisgresiwn, bydd yr awdurdod trwyddedu bob amser yn cydbwyso'n ofalus yr ystyriaethau yn 5.3 a 5.4 uchod yn erbyn ei ddyletswydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amddiffyn hawliau trigolion a busnesau.

5.6 Mae'r awdurdod trwyddedu hefyd yn nodi canllawiau Llywodraeth y DU nad oes rhagdybiaeth gyffredinol o blaid ymestyn oriau trwyddedu ac y dylai'r pedwar amcan trwyddedu fod yn ystyriaethau hollbwysig bob amser. Pan fo sylwadau perthnasol yn erbyn cais a bod y Pwyllgor Trwyddedu o'r farn y byddai caniatáu'r oriau trwyddedu arfaethedig yn tanseilio'r amcanion trwyddedu, yna gall wrthod y cais neu ei ganiatáu gydag amodau priodol a/neu oriau gwahanol i'r rhai y gofynnwyd amdanynt.

5.7 Waeth beth fo'r oriau gweithredu a ganiateir ar gyfer mangre o dan unrhyw drwydded o dan y Ddeddf, dylai gweithredwyr y fangre sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag unrhyw gyfyngiad o ran oriau a osodir o dan unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall sydd mewn grym – er enghraifft, cyfraith cynllunio, Deddf Masnachu ar y Sul 1994, neu Ddeddf Dydd Nadolig (Masnachu) 2004.

5.8 Mae'r awdurdod trwyddedu yn nodi bod canllawiau adran 182 Llywodraeth y DU yn nodi: "Dylai siopau ac archfarchnadoedd fel arfer fod yn rhydd i ddarparu gwerthiannau alcohol i'w yfed oddi ar y fangre ar unrhyw adeg pan fydd yr allfa adwerthu ar agor ar gyfer siopa oni bai fod rhesymau da, yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu, dros gyfyngu ar yr oriau hynny."

5.9 Fodd bynnag, oherwydd problemau a brofwyd mewn rhai cymunedau lleol, yn bennaf oherwydd bod alcohol ar gael i'w werthu i'w yfed oddi ar y fangre, mae'r awdurdod trwyddedu hwn wedi penderfynu na fydd yn mabwysiadu'r safbwynt cyffredinol hwn, ond, yn hytrach, bydd yn disgwyl i ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau wneud cais am alcohol a'i werthu ar oriau sy'n briodol i'w hamgylchedd lleol penodol. Felly, dylai ymgeiswyr ystyried yn ofalus yr oriau maen nhw'n eu ceisio wrth lunio eu hamserlen weithredu. Argymhellir trafod cais o'r fath â'r awdurdodau cyfrifol priodol.

5.10 Os nad yw ymgeisydd am drwydded mangre wedi ystyried yn ddigonol pa oriau sy'n briodol i fasnachu alcohol, mae'n debygol y bydd sylwadau'n cael eu gwneud gan yr awdurdodau cyfrifol perthnasol a/neu 'bersonau eraill'. Yn anochel, bydd hyn yn oedi'r broses o benderfynu ar y cais ac yn arwain at gyfeirio'r cais at is-bwyllgor trwyddedu i'w benderfynu.

5.11 Unwaith y bydd cais, neu drwydded bresennol yn achos adolygiad, yn cael ei gyfeirio at is-bwyllgor, gellir disgwyl y bydd yr is-bwyllgor yn craffu ar y cais neu'r drwydded yn ofalus iawn ac yn dod i benderfyniad ynghylch oriau, ac efallai y bydd cyfyngiad ar oriau trwyddedu yn briodol.

Ystyrir oriau priodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu a gallant hyd yn oed arwain at wrthod y cais neu ddirymu trwydded.

5.12 Er enghraifft, mewn ardaloedd lleol lle gallai fod crynodiad o unigolion sy'n yfed alcohol mewn ffordd broblemus neu lle gwyddys bod grwpiau o unigolion wedi ymgynnull ac wedi ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol, dylai ymgeiswyr ystyried yn ofalus iawn addasrwydd gwerthu alcohol yn gynnar yn y bore neu'n hwyr yn y nos.

5.13 Anogir ymgeiswyr i gynnwys yn eu hamserlenni gweithredu nid yn unig yr oriau safonol y maent yn dymuno cynnal gweithgareddau trwyddedadwy ynddynt, ond hefyd achlysuron arbennig megis gwyliau banc pan fyddant efallai'n dymuno masnachu am awr neu ddwy ychwanegol. Bydd darparu ar gyfer y mathau hyn o achlysuron yn lleihau'r angen i wneud cais am hysbysiad digwyddiad dros dro neu i amrywio eu trwydded.

5.14 Nid oes darpariaeth arbennig awtomatig ar gyfer Nos Galan. Os yw ymgeiswyr yn dymuno manteisio ar oriau masnachu hirach dros y cyfnod hwn, dylid cynnwys hyn yn yr amserlen weithredu.

5.15 **Mannau allanol / gerddi cwrw**

Mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl i oriau ar gyfer ardaloedd allanol mangreoedd trwyddedig gael eu cyfyngu fel arfer i rhwng 8am a 10pm oni bai y gall yr ymgeisydd ddangos bod y mesurau rheoli cynhwysfawr wedi'u rhoi ar waith sy'n sicrhau bod yr amcanion trwyddedu yn cael eu hyrwyddo, yn enwedig yr amcan sy'n ymwneud â niwsans cyhoeddus.

5.16 **Amser gorffen diodydd / amser paratoi ar gyfer cau**

Ni chafodd yr amser traddodiadol i yfed alcohol ei drosglwyddo i'r Ddeddf ac mae'r cyngor yn argymell y dylai ymgeiswyr am fangreoedd sydd wedi'u trwyddedu i werthu alcohol ar y safle ystyried cyfnod i yfed alcohol / paratoi ar gyfer cau. Yn ystod yr amser hwn, efallai y bydd lefel y gerddoriaeth yn cael ei lleihau a gall cwsmeriaid orffen eu diodydd a gwneud trefniadau ar gyfer cludiant o'r safle. Mae'r cyngor o'r farn y bydd amser gorffen diodydd o 30 munud yn cynorthwyo i wasgaru cwsmeriaid yn raddol ac o ganlyniad yn lleihau unrhyw effaith negyddol bosibl ar yr ardal.

## 6. Galw masnachol

6.1 Ni fydd y galw masnachol am drwyddedau mangre ychwanegol (yn wahanol i effaith gronnus) yn fater i'r awdurdod trwyddedu gan fod materion o'r fath yn ystyriaeth benodol i'r awdurdod cynllunio lleol, gan ystyried gofynion y fasnach drwyddedig a gofynion y farchnad.

## 7. Niwed alcohol

7.1 Mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer effaith yfed alcohol ar iechyd a llesiant yn gryf. Mae defnyddio alcohol yn cyfrannu at dros 60 o gyflyrau iechyd gwahanol, gan gynnwys clefyd yr afu, syndrom alcohol y ffetws, a sawl math o ganser. Mae ymchwil yn dangos, yn ogystal â chyfrannu at ystod eang o afiechydon a chyflyrau, y gall defnyddio alcohol arwain at anafiadau a gall gyfrannu at, sbarduno a/neu waethygu cyflyrau iechyd meddwl. Yn ogystal, alcohol yw un o brif achosion marwolaeth a salwch yng Nghymru. Mae tua 1,500 o farwolaethau'n cael eu priodoli i alcohol bob blwyddyn (un o bob 20 o'r holl farwolaethau).

7.2 Mae ymchwil wedi dangos dro ar ôl tro bod argaeledd economaidd, daearyddol ac amserol alcohol yn cael effaith sylweddol ar lefel y niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys niwed i iechyd. Mae ymchwil ac arbrofion bywyd go iawn wedi dangos bod yr ystod o amseroedd a dyddiau y mae alcohol ar gael i'w werthu yn cael effaith sylweddol ar y niwed a achosir gan alcohol. Mae gallu cael mynediad hawdd at alcohol hefyd yn cael effaith, fel y dangosir gan gorff mawr o ymchwil i ddwysedd mannau sy'n gwerthu alcohol. Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd yn 2017 fod polisïau trwyddedu a orfodir yn weithredol yn arwain at ostyngiad mewn derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol. Mae'r rhain i gyd yn ffactorau sy'n destun dylanwad gan fframweithiau trwyddedu lleol a dulliau gweithredol a gorfodi o ran trwyddedu.

7.3 Mae ymchwil wedi dangos mai'r dull mwyaf effeithiol a chosteffeithiol o fynd i'r afael â'r niwed a achosir o ganlyniad i gamddefnyddio alcohol yw lleihau fforddiadwyedd alcohol, faint ohono sydd ar gael, a pha mor hawdd iddo i unigolion gael mynediad ato. Mae Sefydliad Iechyd y Byd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi nodi bod lleihau argaeledd alcohol a mynediad ato yn allweddol i leihau niwed i iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Y tri dangosydd o iechyd y boblogaeth a ddefnyddir i fonitro tueddiadau camddefnyddio alcohol yw:

- Canran yr unigolion sy'n 'yfed' dros y lefelau a argymhellir ar y diwrnod y gwnaethon nhw yfed y mwyaf o alcohol dros yr wythnos ddiwethaf
- Canran yr unigolion sy'n 'yfed yn drwm' (goryfed – dynion dros wyth uned, menywod dros chwe uned) ar y diwrnod y gwnaethon nhw yfed y mwyaf o alcohol dros yr wythnos ddiwethaf
- Canran yr unigolion sy'n 'yfed yn drwm iawn' (goryfed yn sylweddol – dynion dros 12 uned, menywod dros naw uned) ar y diwrnod yfed trymaf yn yr wythnos ddiwethaf

7.4 Bwriad Deddf Trwyddedu 2003 yw rheoleiddio cyflenwi alcohol. Felly, trwyddedu yw'r mecanwaith allweddol ar gyfer rheoleiddio argaeledd alcohol, drwy reoleiddio'r amseroedd a'r dyddiau o'r wythnos y gellir gwerthu alcohol, mangreoedd a all gyflenwi alcohol, ac amodau ei werthu.

7.5 Mae Cyngor Sir Penfro yn cydnabod yr effaith negyddol sylweddol ar iechyd ein trigolion a achosir gan alcohol, a adlewyrchir mewn derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau o salwch sy'n gysylltiedig ag alcohol (gweler isod). Mae data alcohol a rennir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod gan ardal awdurdod lleol Sir Benfro:

Cyfradd o 18% o unigolion 16 oed a hŷn yn hunanadrodd eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau o 14 uned yr wythnos, o'i gymharu â chyfartaledd cenedlaethol Cymru gyfan o 16%. Roedd awdurdodau lleol â chyfraddau uwch yn cynnwys Bro Morgannwg (22%) a Wrecsam (19%). Roedd Sir Gaerfyrddin a chyfradd o 18%, tra bod gan Geredigion gyfradd o 16% a Phowys gyfradd o 17%.

- **Mae 2% o oedolion yn hunanadrodd eu bod yn yfed dros 50 uned yr wythnos yn Sir Benfro, lefel niweidiol** sy'n hafal i'r cyfartaledd cenedlaethol. O'i chymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, yr uchaf yw Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot a Bro Morgannwg, sydd â chyfradd o 4%, o'u cymharu ag Ynys Môn, Sir Ddinbych, Blaenau Gwent a Sir Fynwy, sydd â chyfradd o 1%. Roedd y gyfradd ar gyfer Ceredigion a Phowys yn 2%.

- **Mae Sir Benfro ag un o'r cyfraddau isaf o oedolion sy'n hunanadrodd nad ydynt yn yfed** (17%) o'i chymharu â phob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, gyda chyfartaledd cenedlaethol o 21%. Roedd Sir Gaerfyrddin yn 19%, gyda Cheredigion yn 14% a Phowys yn 20%. Roedd cyfraddau cyfartalog derbyniadau i'r ysbyty am resymau penodol i alcohol ar gyfer menywod ychydig yn is o'u cymharu â chyfartaledd Cymru o 322 fesul 100,000 o bobl. Yn draddodiadol, mae Sir Benfro wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty am resymau penodol i alcohol ond mae ychydig yn is nawr. Ar gyfer 2017-18, roedd gan Sir Benfro 311 o dderbyniadau penodol i alcohol fesul 100,000 o unigolion.

- Roedd ganddi gyfraddau ychydig uwchlaw'r cyfartaledd o dderbyniadau i'r ysbyty am resymau penodol i alcohol ar gyfer dynion o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 642 fesul 100,000 o unigolion. Ar gyfer 2017-18, roedd gan Sir Benfro 675 o dderbyniadau penodol i alcohol fesul 100,000 o unigolion ac yn draddodiadol mae wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Noder: Mae nifer uwch o oedolion gwrywaidd yn cael eu derbyn i'r ysbyty am gyflyrau penodol i alcohol o'i gymharu â menywod yn Sir Benfro. Mae pob derbyniad i'r ysbyty oherwydd alcohol yn ataliadwy.

- Roedd gan Sir Benfro lefel is na'r cyfartaledd o dderbyniadau i'r ysbyty am resymau penodol i alcohol ar gyfer menywod dan 18 oed o'i chymharu â chyfartaledd Cymru (lefel Sir Benfro oedd 39 o fenywod fesul 100,000 unigolyn o'i chymharu â'r cyfartaledd

cenedlaethol o 54 o fenywod fesul 100,000 unigolyn). Er hynny, roedd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer dynion (lefel Sir Benfro oedd 56 o ddynion fesul 100,000 unigolyn; y cyfartaledd cenedlaethol oedd 32 o ddynion fesul 100,000 unigolyn). Fodd bynnag, derbyniwyd mwy o ddynion ifanc i'r ysbyty am gyflyrau penodol i alcohol na dynion yn Sir Benfro yn ystod 2015-18.

- Roedd yn uwchlaw'r cyfraddau cyfartalog cenedlaethol ar gyfer marwolaethau sy'n benodol i alcohol ar gyfer menywod (lefel Sir Benfro oedd 8.4 o fenywod fesul 100,000 unigolyn; y cyfartaledd cenedlaethol oedd 8.6 o fenywod fesul 100,000 unigolyn). Roedd yn islaw'r cyfraddau cyfartalog cenedlaethol ar gyfer marwolaethau sy'n benodol i alcohol ar gyfer dynion (lefel Sir Benfro oedd 17.5 o ddynion fesul 100,000 unigolyn; y cyfartaledd cenedlaethol oedd 16.5 o ddynion fesul 100,000 unigolyn).

Cyfeiriad: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru https://publichealthwales.shinyapps.io/AlcoholyngNghymru/ a StatsCymru

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/National-Survey-for- Wales/Population-Health/Adult-Lifestyles/adultlifestyles-by-localauthority- healthboard

7.6 Yng nghyd-destun hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr gynnig amodau trwyddedu i liniaru'r effaith y gallai eu mangre ei chael ar iechyd a llesiant eu cwsmeriaid, y gymdogaeth, a'r gymuned ehangach.

7.7 Yn ogystal, mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr ystyried yr effaith y gallai eu mangre ei chael ar unigolion sy'n agored i gamddefnyddio alcohol, yn enwedig plant a phobl ifanc, ac unigolion sy'n yfed mewn ffordd broblemus. Mae gwasanaethau triniaeth alcohol a gomisiynir wedi'u lleoli o fewn y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Gall argaeledd alcohol yn agos at wasanaethau triniaeth greu problemau penodol i ddarparwyr triniaeth. Mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr ystyried a lliniaru'r niwed drwy gynnwys amodau trwyddedu pan fydd eu mangre yn agos at leoliad gwasanaethau triniaeth a mannau lle gall plant a phobl ifanc ymgynnull, megis ysgolion, clybiau ieuenctid a pharciau.

7.8 Yn 2020, daeth isafswm pris fesul uned o alcohol yn gyfraith yng Nghymru i fynd i'r afael ag yfed alcohol cryf rhad sy'n niweidiol. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio gweld gostyngiad o ran y niwed sylweddol ac eang a achosir gan oryfed alcohol o ganlyniad i'r gyfraith newydd hon.

Cafodd adroddiad ei gyhoeddi'n ddiweddar am effeithiolrwydd cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru.

Detholiad o'r adroddiad hwn:

*Mae cyflwyno'r polisi, y ddeddfwriaeth, gweithredu'r isafswm sefydledig o 50ppu, a mabwysiadu a chydymffurfio gan adwerthwyr yng Nghymru wedi bod yn llwyddiannus. Mae'n amlwg yn arf ymarferol o fewn y stoc polisi alcohol. 8.8 O'u hystyried yn gyffredinol, mae'r holl werthusiadau yng Nghymru yn dangos cefnogaeth eang i'r polisi. Mae hyn i'w groesawu o ystyried yr effaith bosibl ar genedlaethau'r dyfodol, yfed yn gyffredinol/niwed i*

*iechyd, a chael gwared ar rai cynhyrchion alcohol rhad iawn. 8.9 Gellir gweld bod gan y polisi effeithiau amlwg y gellir eu gweld. Yn benodol: (i) cael gwared ar rai cynhyrchion rhad iawn (yn enwedig cyfeintiau mawr o seidr a lager rhad); (ii) cydymffurfiad clir o ran yr alcohol sy'n cael ei werthu gan adwerthwyr yng Nghymru ar yr isafswm pris isaf neu'n uwch na hynny; (iii) gwahaniaethau amlwg rhwng ymddygiad adwerthu yng Nghymru a Lloegr; (iv) rhywfaint o newid ymaddasol gan gynhyrchwyr ac adwerthwyr o ran natur cynigion a chynhyrchion sydd ar gael yng Nghymru; a (v) rhywfaint o newid o ran prynu (a defnydd tybiedig) o seidr a lager cryf a rhad i gyrfau eraill a gwin a gwirodydd.*

Argymhellodd yr adroddiad y dylai Llywodraeth Cymru adnewyddu yn hytrach na cholli'r opsiwn o isafbris am alcohol fel mesur polisi yn ymwneud ag alcohol yng Nghymru.

[https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2025-01/adroddiad-terfynol-adolygiad-o-gyflwyno-isafbris-am-alcohol-yng-nghymru_0.pdf](https://www.llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2025-01/adroddiad-terfynol-adolygiad-o-gyflwyno-isafbris-am-alcohol-yng-nghymru_0.pdf)

Mae ymarfer ymgynghori ynghylch cadw'r isafbris uned a chynyddu'r isafbris yn cael ei gynnal yn 2025.

## 8. Cyffuriau

8.1 Mae'r niweidiau o gamddefnyddio cyffuriau yn niferus, ac nid ydynt yn gyfyngedig i niweidiau iechyd. Roedd lefelau marwolaethau o ganlyniad i gyffuriau yng Nghymru ar eu lefel uchaf erioed yn 2018-19, ac mae marwolaethau o ganlyniad i wenwyno yn gysylltiedig â chyffuriau wedi cynyddu 78% dros y deng mlynedd diwethaf. Ymddengys fod marwolaethau o ganlyniad i gyffuriau yn digwydd fwyfwy ymhlith unigolion sy'n defnyddio cyffuriau at ddibenion hamdden.

8.2 Mae marchnad gyffuriau'r DU yn newid yn gyflym, ac mae cyffuriau stryd cyffredin yn parhau i gynyddu o ran cryfder a phurdeb, ac mae yna fwy o fathau gwahanol o sylweddau ar led. Mae gan drwyddedu rôl i'w chwarae wrth leihau'r niwed o gamddefnyddio cyffuriau yn economi'r nos a'n mangreoedd trwyddedig.

8.3 Pan fydd materion sy'n peri pryder, bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl gweld tystiolaeth bod y polisi cyffuriau wedi'i weithredu a'i adolygu.

8.4 Yng nghyd-destun hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ar gyfer atal troseddu ac anhrefn a sicrhau diogelwch y cyhoedd, mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau wneud y canlynol:

- Cymryd pob cam rhesymol i atal cyffuriau rhag mynd i mewn i fangreoedd trwyddedig
- Cymryd pob cam rhesymol i atal cyffuriau rhag newid dwylo o fewn y fangre
- Hyfforddi staff i adnabod a deall arwyddion unigolion sy'n camddefnyddio cyffuriau fel y gellir cymryd camau ymarferol i ddelio ag achosion sy'n digwydd
- Cael staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol i ddelio â digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chyffuriau
- Dangos gwybodaeth briodol am ymwybyddiaeth diogelwch cyffuriau i gwsmeriaid

- Darparu ystafell cymorth cyntaf ac offer cymorth cyntaf, gan gynnwys diffibriliwr mewn lleoliadau sy'n fwy o faint
- Defnyddio staff sydd wedi'u hyfforddi i gynorthwyo gyda digwyddiadau meddygol
- Gweithredu polisi gwahardd priodol

8.5 Ar gais Heddlu Dyfed-Powys, byddai'n ofynnol i fangreoedd trwyddedig atafaelu, cadw a dogfennu unrhyw gyffuriau sy'n cael eu canfod, gyda llwybr archwilio clir a phroses ar gyfer eu hildio yn unol â pholisi Heddlu Dyfed-Powys.

Ar ben hynny, er budd trosedd ac anhrefn, byddai Heddlu Dyfed-Powys hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i fangreoedd trwyddedig ganiatáu defnyddio peiriant tracio ïonau yn eu mangre i gynorthwyo wrth nodi'r ardaloedd lle gellir defnyddio cyffuriau anghyfreithlon yn y lleoliad.

8.6 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod nad yw camddefnyddio cyffuriau yn rhywbeth sy'n berthnasol i bob mangre drwyddedig. Fodd bynnag, mae wedi ymrwymo i leihau a chael gwared ar gyffuriau o fangreoedd trwyddedig lle bo modd fel rhan o'i rôl o hyrwyddo'r amcan trwyddedu sy'n ymwneud â throsedd ac anhrefn. Mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl i bob deiliad trwydded gefnogi'r nod hwn yn weithredol yn y ffordd y maent yn cynllunio, rheoli a gweithredu mangreoedd.

8.7 Os ceir sylwadau perthnasol ynghylch cais i roi neu amrywio trwydded, gellir gosod amodau arbennig i gefnogi atal cyflenwi neu ddefnyddio cyffuriau a reolir yn anghyfreithlon. Ceisir cyngor ar gyflyrau gan yr heddlu neu unrhyw sefydliad perthnasol arall sy'n ymwneud â rheoli cyffuriau a reolir neu gefnogi a/neu drin defnyddwyr cyffuriau.

8.8 Mewn mangreoedd lle mae camddefnyddio cyffuriau yn broblem a phan fydd unrhyw awdurdod cyfrifol neu berson arall yn gwneud cais am adolygiad o'r drwydded, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried hyn fel mater difrifol iawn a bydd yn ystyried yn briodol yr ystod lawn o opsiynau sydd ar gael, gan gynnwys atal a dirymu'r drwydded yn unol â'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod bod pob achos yn unigol ac y bydd yn cael ei benderfynu arno gan ystyried ei ffeithiau a'i rinweddau penodol ei hun.

8.9 **Hyrwyddo diogelwch personol**

Mae'r awdurdod trwyddedu wedi ymrwymo i sicrhau bod Sir Benfro yn sir ddiogel a chroesawgar i bawb, waeth beth fo'u rhywedd, ethnigrwydd, rhywioldeb, credoau neu gefndir. Yn anffodus, nid yw hyn bob amser yn wir. Mae'r cynnydd yn nifer yr adroddiadau am sbeicio diodydd yn genedlaethol a'r galw am wasanaethau lles a'r heddlu yn dangos bod angen gwaith partneriaeth sylweddol o hyd i ddatblygu economi nosol Sir Benfro ymhellach er mwyn gwella diogelwch gwirioneddol a chanfyddedig i bob ymwelydd a phreswylydd a'r rhai sy'n gweithio yn y sir yn y nos.

Nod y polisi hwn yw sicrhau bod bregusrwydd a diogelwch personol yn ystyriaeth bwysig wrth wneud penderfyniadau yn yr economi nos a hwyr y nos ledled y sir. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn parhau i adolygu cyffredinrwydd aflonyddu a chamymddwyn rhywiol a thrais ar sail rhywedd, ynghyd â'r gwaith o'u hatal ac adrodd amdanynt.

Anogir gweithredwyr yn gryf i ddatblygu polisi i leihau niwed ar gyfer eu busnes a sicrhau mesurau digonol i amddiffyn a darparu cefnogaeth i gwsmeriaid mewn perthynas â sbeicio diodydd a bregusrwydd.

Ein nod yw hyrwyddo arferion gorau, gan gynnwys safonau arfer da Night Time Industries Association ar gyfer delio â sbeicio a chael dyletswydd gofal dros gwsmeriaid (gweler y camau i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu), yn ogystal ag integreiddio â mentrau eraill sy'n gysylltiedig â diogelwch yn y sir.

Bydd yr awdurdod trwyddedu yn hyrwyddo ymgyrchoedd yn weithredol sy'n helpu i ddileu risgiau i unigolion agored i niwed sy'n ymweld â mangreoedd trwyddedig neu'n gweithio ynddynt. Enghreifftiau o hyn fyddai'r cynlluniau ymwybyddiaeth ynghylch sbeicio a 'gofynnwch am Angela'. Mae swyddogion trwyddedu yn ceisio gweithio'n agos gyda deiliaid trwyddedau i annog ymgysylltiad cadarnhaol ag ymgyrchoedd o'r fath ac i helpu i hyrwyddo ac egluro pwysigrwydd cadw'r cyhoedd yn ddiogel.

## 9. Amcanion trwyddedu

9.1 Mae gan yr awdurdod trwyddedu ddyletswydd o dan y Ddeddf i gyflawni ei swyddogaethau gyda'r bwriad o hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Yr amcanion trwyddedu (y mae pob un ohonynt yr un mor bwysig) yw:

- **Atal trosedd ac anhrefn**
- **Diogelwch y cyhoedd**
- **Atal niwsans cyhoeddus**
- **Amddiffyn plant rhag niwed**

9.2 Cydnabyddir nad y swyddogaeth drwyddedu yw'r prif ddull o sicrhau bod yr amcanion hyn yn cael eu cyflawni. Felly, bydd yr awdurdod trwyddedu yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'i awdurdodau lleol cyfagos, yr heddlu, y bwrdd iechyd, asiantaethau mewnfudo, busnesau lleol, trwyddedeion ac unigolion lleol tuag at hyrwyddo'r amcanion.

9.3 Mae dogfen cronfa o amodau ar gael i ymgeiswyr. Dogfen a baratowyd gan Fforwm Trwyddedu'r Pedair Sir yw hon i gynorthwyo ymgeiswyr i baratoi eu hamserlenni gweithredu ac mae'n darparu geiriad cadarn, clir a gorfodadwy ynghylch amodau ac enghreifftiau o fesurau rheoli. Nid yw'r gronfa enghreifftiol o amodau yn gynhwysfawr ac ni ddylid ei hystyried mewn unrhyw ffordd yn amodau safonol nac yn ofynion gorfodol.

## 10. Atal trosedd ac anhrefn

10.1 Gall mangreoedd trwyddedig, yn enwedig y rhai sy'n cynnig adloniant hwyr y nos / bore cynnar, alcohol a lluniaeth i nifer fawr o unigolion, fod yn ffynhonnell troseddu ac anhrefn.

10.2 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl i amserlenni gweithredu fynd i'r afael â'r materion hyn yn foddhaol, gan ystyried ffactorau megis dyluniad y fangre a gweithrediad dyddiol y

busnes.

10.3 Argymhellir i ymgeiswyr geisio cyngor gan swyddogion trwyddedu'r awdurdod trwyddedu a'r heddlu, yn ogystal ag ystyried, fel y bo'n briodol, bolisïau cynllunio a thrafnidiaeth a strategaethau twristiaeth, diwylliannol ac atal troseddu lleol wrth baratoi eu cynlluniau a'u hamserlenni gweithredu.

Dylai'r trwyddedai/ymgeisydd hefyd ddefnyddio ei brofiad a'i wybodaeth ei hun am ei gwsmeriaid a'i leoliadau wrth ddrafftio ei amserlen weithredu, sydd wedyn yn dod yn sail i amodau ar y drwydded. Gall methu â gwneud hyn arwain at sylwadau gan yr awdurdod, awdurdod cyfrifol neu berson arall. Cynghorir ymgeiswyr i ystyried y gronfa o amodau wrth ddrafftio eu cais.

10.5 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod, er bod Heddlu Dyfed-Powys a gwasanaethau cyfiawnder troseddol eraill yn dioddef y baich adnoddau mwyaf o droseddau ac anhrefn sy'n gysylltiedig ag alcohol y gellir eu hatal, bod y system iechyd hefyd yn cael ei heffeithio. Mae presenoldeb a derbyniadau sy'n gysylltiedig ag alcohol y gellir eu hatal yn cael effaith negyddol ar adnoddau cyfyngedig y GIG a'i staff a chleifion eraill. Mae anaf corfforol ac effeithiau seicolegol digwyddiadau treisgar yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd a llesiant unigolion, eu teulu, eu ffrindiau a'u cydweithwyr, ein staff gwasanaeth cyhoeddus a staff mangreoedd trwyddedig sy'n delio â'r digwyddiadau hyn, a'r gymuned leol. Bydd awdurdodau cyfrifol yn cydweithio, gan rannu'r holl ddata lleol sydd ar gael, a byddant yn defnyddio ffynonellau data'r GIG i hyrwyddo'r amcan trwyddedu hwn.

10.6 Bydd yr awdurdod yn ymdrechu i leihau trosedd ac anhrefn ledled y sir yn unol â'i ddyletswydd statudol o dan adran 17 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998.

10.7 Nod Cyngor Sir Penfro, trwy asiantaethau sy'n cydweithio ac yn rhannu gwybodaeth, yw nodi ac atal camfanteisio rhywiol, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Gall deiliaid trwyddedau helpu gan y gallent ddod yn ymwybodol o ddioddefwyr o'r fath neu ddod i gysylltiad â nhw. Gall hyn fod mewn gwestai, bariau a bwytai, bwytai cludfwyd hwyr y nos, siopau trwyddedig, neu fangreoedd trwyddedig eraill. Mae deiliaid trwyddedau a staff sy'n cael eu cyflogi mewn mangreoedd trwyddedig mewn sefyllfa ddelfrydol i helpu i amddiffyn unigolion.

10.8 Mae caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn drosedd ac yn groes i hawliau dynol sylfaenol a gall gymryd sawl ffurf, megis caethwasiaeth, caethwasanaeth, a llafur gorfodol. Dylai deiliad y drwydded a staff sy'n gweithio mewn safleoedd trwyddedig chwilio am y canlynol a gofyn y canlynol iddynt eu hunain:

- A oes gan yr unigolyn unrhyw arwyddion corfforol o gam-drin neu esgeulustod?
- A yw wedi'i amddifadu o fwyd, dŵr, cwsg, gofal meddygol, neu anghenion eraill bywyd?
- Rydych chi'n gweld ymddygiad tuag at unigolyn sy'n peri pryder
- A yw'r dioddefwr yn meddu ar basbort, dogfennau adnabod neu ddogfennau teithio?

- A yw'r dogfennau hyn ym meddiant unigolyn arall?
- A yw'r dioddefwr yn ymddwyn fel pe bai wedi cael ei gyfarwyddo neu ei hyfforddi gan unigolyn arall?
- A yw'n caniatáu i unigolion eraill siarad pan siaradir ag ef/hi yn uniongyrchol?
- A gafodd y dioddefwr ei recriwtio at un diben a'i orfodi i ymgymryd â rhyw swydd arall?
- A dalwyd am ei gludiant gan hwyluswyr, y mae'n rhaid iddo eu had-dalu drwy ddarparu gwasanaethau?
- A yw'r dioddefwr yn cael ychydig iawn o dâl neu ddim tâl o gwbl am ei waith? A oes unigolyn arall yn rheoli ei enillion?
- A orfodwyd y dioddefwr i gyflawni gweithredoedd rhywiol?
- A oes gan y dioddefwr ryddid i symud?
- A all gysylltu â ffrindiau a theulu yn rhydd? A yw ei ryngweithio cymdeithasol yn gyfyngedig?
- A yw'r dioddefwr neu'r teulu wedi cael eu bygwth â niwed os bydd y dioddefwr yn ceisio dianc?
- A yw'r dioddefwr wedi'i rwymo gan ddyled, neu mewn sefyllfa o ddibyniaeth?

10.9 Os oes pryderon, dylai deiliad y drwydded roi gwybod am y mater i linell gymorth Caethwasiaeth Fodern trwy ffonio 08000 121 700 neu drwy ymweld â'r wefan https://www.modernslaveryhelpline.org/report neu gall roi gwybod i'r tîm trwyddedu trwy ffonio 01437 764551 neu drwy anfon neges e-bost i licensing@pembrokeshire.gov.uk. Os oes unigolyn mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch yr heddlu ar 999. Yn ogystal, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i bob cyflogwr wirio bod gan eu gweithwyr yr hawl i weithio yn y DU. Gall cyflogi unigolyn nad oes ganddo'r hawl i ymgymryd â'r gwaith arwain at sancsiynau llym yn erbyn deiliad y drwydded.

## 11. Atal niwsans cyhoeddus

11.1 Mae gan fangreoedd trwyddedig botensial sylweddol i gael effaith andwyol ar unigolion sy'n byw ac yn gweithio (gan gynnwys y rhai sy'n cynnal busnes) yng nghyffiniau'r fangre a hefyd ymhellach i ffwrdd trwy niwsans cyhoeddus sy'n deillio o'u gweithrediad. Felly, mae'n bwysig, wrth ystyried hyrwyddo'r amcan trwyddedu hwn, fod awdurdodau trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol yn canolbwyntio ar effaith y gweithgareddau yn y fangre benodol ar y partïon hyn, a allai fod yn anghymesur ac yn afresymol.

11.2 Dylid dehongli'r diffiniad o'r hyn y gellir ei ystyried yn 'niwsans cyhoeddus' posibl neu wirioneddol yn unol â'i ystyr cyfraith gyffredin eang a sefydlwyd trwy gyfraith achosion berthnasol. Dyma'r dehongliad y bydd yr awdurdod trwyddedu yn ei gymhwyso wrth ystyried materion o'r fath. Derbynnir yn bennaf fod materion sy'n achosi 'niwsans cyhoeddus' yn cynnwys materion sy'n ymwneud â sŵn, llygredd golau, arogl a sbwriel. Gall hefyd godi o ganlyniad i effeithiau andwyol llwch, pryfed, croniadau neu unrhyw sylwedd arall y penderfynir ei fod yn cael effaith andwyol ar amgylchedd byw a gweithio unigolion eraill sy'n byw ac yn gweithio yn ardal y fangre drwyddedig.

Yn amlwg, mae gan fangreoedd trwyddedig gyfrifoldeb o dan yr amcan niwsans cyhoeddus i glirio sbwriel a achosir gan gwsmeriaid yng nghyffiniau agos y fangre drwyddedig. Cynghorir mangreoedd i gasglu sbwriel yn rheolaidd a darparu digon o finiau i'w cwsmeriaid. Anogir ymgeiswyr i ddangos yn eu hamserlen weithredu pa fesurau addas a digonol sydd wedi'u nodi a fydd yn cael eu gweithredu a'u cynnal i atal niwsans cyhoeddus, gan gynnwys sbwriel.

Gall mangreoedd trwyddedig o bob math achosi niwsans cyhoeddus oherwydd sbwriel a gwastraff. Yng Nghymru, mae'r gyfraith wedi newid o ran casglu a gwaredu gwastraff yn briodol i'w ailgylchu. Mae 'dyletswydd gofal' i sicrhau bod unrhyw wastraff yn cael ei gyfyngu a'i reoli'n iawn tra bydd ym meddiant y gweithredwr, a'i fod yn cael ei gasglu gan gludwr gwastraff ag enw da. Nid yw'r Ddeddf Trwyddedu yn dyblygu'r gyfraith hon, ond bydd angen i ddeiliaid trwyddedau gymhwyso arfer da o ran rheoli gwastraff er mwyn atal niwsans cyhoeddus. Mae sbwriel, gwastraff a baw yn y stryd heb eu rheoli yn hyll a gall arwain at ddelwedd negyddol o'r ardal. Gall achosi arogl annymunol, gall ddenu llygod mawr a phryfed ac felly fod yn risg i iechyd y cyhoedd, gall achosi i unigolion lithro, baglu ac anafu eu hunain, a gall niweidio enw da busnes deiliad y drwydded. Mae enghreifftiau nodweddiadol o sbwriel, gwastraff a baw stryd a all achosi problemau yn cynnwys pecynwaith siopau cludfwyd a bwyd a ollyngir gan gwsmeriaid, gwastraff a sbwriel a chwythir gan y gwynt o ardaloedd storio sbwriel, poteli, gwydrau a chaniau wedi'u taflu a'u torri, taflenni a phosteri hyrwyddo, bonion sigaréts a gwm cnoi wedi'u taflu gan gwsmeriaid, a phobl sydd wedi yfed gormod o alcohol yn troethi a chwydu yn y stryd.

Dylid cymryd camau i atal problemau yn ymwneud â gosod posteri'n anghyfreithlon a sbwriel sy'n deillio o ddosbarthu taflenni sy'n hysbysebu'r fangre neu ddigwyddiadau yn y fangre. Dylai'r ymgeisydd ymdrechu i leihau'r defnydd o daflenni hyrwyddo a dim ond rhoi taflenni'n uniongyrchol i'r cyhoedd. Ni ddylid gadael taflenni ar sgriniau gwynt cerbydau. Gwnewch yn siŵr fod bin sbwriel yn agos at y man lle caiff taflenni eu dosbarthu a chliriwch daflenni sydd wedi'u taflu wedyn. Dylai'r ymgeisydd hefyd gael gwared ar unrhyw graffiti a phosteri anghyfreithlon oddi ar arwynebau ei fangre cyn gynted ag y byddant yn ymddangos.

Yn ogystal, mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) 2023 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn drosedd cyflenwi neu gynnig cyflenwi (gan gynnwys am ddim) rai cynhyrchion plastig untro i ddefnyddwyr yng Nghymru, oni bai fod eithriad yn berthnasol. Bydd hyn yn effeithio ar rai mangreoedd trwyddedig, yn enwedig y rhai sydd â lluniaeth hwyr y nos sy'n cynnig cludfwyd. Mae'n un o ystod o gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog y symudiad oddi wrth gynhyrchion plastig untro ac i annog unigolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu gwaredu.

11.3 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod bod cyfyngu ar y niwsans cyhoeddus a allai fod yn gysylltiedig â mangreoedd trwyddedig a'u gweithrediad yn ffactor pwysig o ran iechyd a llesiant.

11.4 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod y cysylltiadau allweddol ag iechyd a llesiant o niwsans cyhoeddus o ran tarfu ar gwsg, straen a achosir gan niwsans, a llygredd. Gall tarfu ar gwsg a straen ychwanegu at broblemau iechyd meddwl a chorfforol preswylwyr a'u llesiant ehangach. Gall diffyg cwsg effeithio ar y system imiwnedd a gall gyfrannu at glefyd y galon a diabetes. Gall diffyg cwsg hefyd gyfrannu at orbryder ac iselder. Gall straen gyfrannu at orbryder ac iselder, a chlefydau cardiofasgwlaidd.

Dylai ymgeiswyr ystyried yr effaith bosibl y gallai eu mangre ei chael ar niwsans cyhoeddus, yn enwedig o sŵn, a chymhwyso mesurau lliniaru.

11.5 Mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr am drwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb fod wedi gwneud ymholiadau ac ystyriaethau perthnasol am yr ardal leol cyn cyflwyno eu cais. Diben hyn yw galluogi'r ymgeisydd i ystyried y rheolaethau mwyaf priodol i'w cynnwys yn yr amserlen weithredu, gyda'r bwriad o sicrhau nad yw eu gweithgareddau'n tanseilio'r amcan trwyddedu o ran atal niwsans cyhoeddus. Mae'n bwysig cydnabod nad yw effeithiau gweithgaredd trwyddedig wedi'u cyfyngu i tu fewn adeilad yn unig. Yn anochel, mae effaith ehangach wrth i unigolion deithio i'r fangre ac oddi yno neu ymgynnull y tu allan tra ei bod ar agor. Y ffordd orau o reoli niwsans yw ystyried addasrwydd y fangre a ddewisir yn ofalus a rhoi unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol ar waith yn gynnar.

11.6 Anogir ymgeiswyr i ddangos ar eu hamserlenni gweithredu bod mesurau addas a digonol wedi'u nodi ac y byddant yn cael eu gweithredu a'u cynnal i atal niwsans cyhoeddus. Pan fydd mangre addas wedi'i nodi, dylid paratoi amserlenni gweithredu ar sail asesiad risg o'r ffynonellau posibl o niwsans a achosir gan weithrediad y fangre i'r rhai a allai gael eu heffeithio gan eugweithgareddau. Dylai'r amserlen weithredu ddangos dealltwriaeth o lefel y risg o niwsans a chynnwys mesurau cadarnhaol i reoli unrhyw risgiau posibl.

11.7 Mae'r awdurdod trwyddedu yn argymell bod trwyddedeion yn defnyddio safon uchel o reolaeth i leihau'r potensial am unrhyw niwsans cyhoeddus a allai godi o ganlyniad i'w gweithrediad o'r fangre, yn enwedig:

- pan maent wedi'u lleoli mewn ardal breswyl neu ardal sy'n sensitif i sŵn
- pan gynigir oriau agor estynedig
- pan fo ardaloedd trwyddedig allanol a/neu ardaloedd yfed/bwyta allanol

11.8 **Ysmygu ac ardaloedd allanol** – Mae deddfwriaeth sy'n gwahardd ysmygu dan do mewn mangreoedd cyhoeddus wedi arwain at lawer o gwsmeriaid mangreoedd trwyddedig a chlybiau i ddefnyddio ardaloedd allanol. Rhaid i ddeiliaid trwyddedau mangreoedd, goruchwylwyr mangre dynodedig ac ymgeiswyr ystyried sut mae hyn yn effeithio ar y pedwar amcan trwyddedu. Gall mesurau rheoli gynnwys cyfyngu mynediad i fannau yfed allanol ar adegau penodol, neu atal cwsmeriaid rhag mynd â diodydd i fannau ysmygu allanol er mwyn atal cwsmeriaid rhag oedi y tu allan ac o bosibl achosi aflonyddwch i drigolion.

Fel arfer, bydd gweithgareddau trwyddedadwy sy'n digwydd mewn ardaloedd allanol o fangreoedd trwyddedig yn cael eu cyfyngu i rhwng 8am a 10pm oni bai y gall yr ymgeisydd ddangos bod mesurau rheoli cynhwysfawr wedi'u gweithredu sy'n sicrhau bod yr amcanion

trwyddedadwy yn cael eu hyrwyddo, yn enwedig yr amcan niwsans cyhoeddus.

11.9 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod, y tu hwnt i gyffiniau uniongyrchol y fangre, fod y rheolaeth y gall deiliad trwydded ei chael dros ei gwsmeriaid yn lleihau a bod unigolion sy'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn atebol yn eu rhinwedd eu hunain. Fodd bynnag, anogir ymgeiswyr i ystyried y camau y gallant eu cymryd fel deiliad trwydded cyfrifol i liniaru effaith andwyol bosibl cwsmeriaid. Dylid defnyddio'r amserlen weithredu unwaith eto i ddangos dealltwriaeth o'r risgiau posibl a'r mesurau cadarnhaol y gellir eu rhoi ar waith i reoli materion o'r fath.

11.10 Anogir ymgeiswyr i ymgysylltu â'r awdurdod trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol perthnasol eraill (megis Iechyd yr Amgylchedd) yn gynnar a chyn cyflwyno cais. Bydd yr awdurdodau hyn yn gallu rhoi cyngor ynghylch y mesurau rheoli priodol y gellir eu rhoi ar waith a'u cynnwys yn yr amserlen weithredu i liniaru'r risgiau posibl o niwsans cyhoeddus. Yn ogystal, gall ymgeiswyr gyfeirio at y gronfa o amodau i gael enghreifftiau.

11.11 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a rheoli sŵn a seinwedd**

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel Deddf 2015) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol, gan gynnwys yr awdurdod trwyddedu, i ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy sydd â'r nod o gyflawni saith nod llesiant rhagnodedig fel rhan o'i weithrediad sylfaenol; mae hyn yn cynnwys cyflawni ei swyddogaeth o ran trwyddedu. Un o'r meysydd allweddol i'w hystyried yw rheoli sŵn a'i effaith ar iechyd a llesiant.

Nid yw'r canllawiau trwyddedu statudol a gyhoeddwyd o dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 ar hyn o bryd yn darparu unrhyw gyfeiriad at sut y dylai awdurdodau trwyddedu ystyried gofynion Deddf 2015 yn weithredol, yn benodol o ran sut y gallant ymwneud â hyrwyddo'r amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus. Fodd bynnag, mae 'Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd 2018-2023' Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir fod effaith sŵn yn cael ei hadnabod. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y cynllun gweithredu hwn wrth benderfynu ar geisiadau (cyfeiriwch at adran 17, 'Integreiddio strategaethau', isod).

## 12 Diogelwch y cyhoedd

12.1 Mae'r cyngor wedi ymrwymo i sicrhau nad yw diogelwch unrhyw un sy'n ymweld â mangre drwyddedig neu'n gweithio ynddi yn cael ei beryglu. Disgwylir i ymgeiswyr ddangos yn eu hamserlen weithredu bod mesurau addas a digonol wedi'u nodi ac y byddant yn cael eu gweithredu a'u cynnal i sicrhau diogelwch y cyhoedd, yn berthnasol i arddull a nodweddion unigol eu mangre a'u digwyddiadau. Cynghorir ymgeiswyr i geisio cyngor gan amrywiol sefydliadau, megis swyddogion gorfodi iechyd a diogelwch Cyngor Sir Penfro, Gwasanaeth

Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac ati, cyn paratoi eu cynlluniau a'u hamserlenni, yn enwedig pan fo adloniant wedi'i reoleiddio i'w ddarparu.

**12.2** Cyflwynodd Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 ofyniad bod rhaid i unrhyw berson sy'n gyfrifol am reoli mangre wneud asesiad addas a digonol o'r risgiau y gallai personau fod yn agored iddynt, at ddiben nodi'r rhagofalon tân cyffredinol y mae angen eu rhoi ar waith. Felly, ni ellir gosod unrhyw amodau ar drwydded pan fo'n ymwneud yn uniongyrchol â diogelwch tân. Felly, disgwylir y bydd deiliaid trwyddedau yn cynnal asesiad risg trylwyr a fydd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd. Dylid cadw'r asesiad risg ar y fangre a dylai fod ar gael ar gais gan unrhyw swyddog awdurdodedig y cyngor.

**12.3** Pan fydd ymgeisydd yn nodi problem o ran diogelwch y cyhoedd nad yw wedi'i chynnwys yn y ddeddfwriaeth bresennol, dylai'r ymgeisydd nodi yn yr amserlen weithredu'r camau a gymerir i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

12.4 Gan ddibynnu ar arddull a nodweddion unigol y fangre a/neu'r digwyddiadau, gall y materion canlynol fod yn berthnasol:

- Nifer yr unigolion sy'n mynychu'r fangre / lefelau capasiti diogel (gall ffactorau gynnwys trefniadau mynd i mewn a gadael, llif o amgylch y fangre, lefelau cysur, darpariaethau o ran seddi, mannau dawns, hygyrchedd i fariau, ac ati)
- Oedran, cyflwr, dyluniad a chynllun y fangre, gan gynnwys y ffyrdd o ddianc mewn argyfwng
- Natur y gweithgareddau i'w darparu, yn benodol gwerthu neu gyflenwi alcohol a/neu ddarparu cerddoriaeth a darparu ar gyfer dawnsio, a chan gynnwys a yw'r gweithgareddau hynny o natur dros dro neu barhaol
- Yr oriau agor, gan wahaniaethu rhwng yr oriau agor a'r oriau pan fydd y gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu darparu
- Y proffil cwsmeriaid (e.e. oedran, anabledd ac ati)
- 

efnyddio effeithiau arbennig megis laserau, pyrotechneg, peiriannau mwg, peiriannau ewyn ac ati

- 

rydan a gwresogi fel rhan o'r asesiad risg

Yn ogystal, gall ymgeiswyr gyfeirio at y gronfa o amodau i gael enghreifftiau.

12.5 Mae'r awdurdod yn argymell y dylid ymgynghori ag arbenigwyr, e.e. swyddog diogelwch cymwys, i gynorthwyo ag asesiad o faterion diogelwch y cyhoedd (ac eithrio diogelwch tân gan fod asesiad risg o'r fath yn ofyniad gorfodol).

12.6 Mae Heddlu Dyfed-Powys yn hyrwyddo defnyddio gwydrau yfed polycarbonad i leihau anafiadau a achosir naill ai'n fwriadol neu'n ddamweiniol oherwydd gwydrau yfed gwydr. Mae'r cyngor yn cefnogi'r fenter hon a byddai'n cynghori unrhyw ymgeisydd neu ddeiliad awdurdodiad bod gwydr caled yn aml yn mynd yn fwy bregus trwy ei ddefnyddio dro ar ôl tro a dylai ystyried cyflwyno polycarbonad yn unig neu wydrau yfed tebyg y gellir eu hailddefnyddio. Pan fydd mangreoedd yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn, gall y cyngor hefyd ddadlau dros beidio â chaniatáu poteli gwydr agored i yfed ohonynt ar y fangre a bod y cynnwys yn cael ei dywallt cyn ei weini i gwsmeriaid, gyda'r bwriad o leihau unrhyw ddigwyddiadau lle gellir defnyddio poteli fel arfau.

12.7 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod bod cysylltiadau rhwng diogelwch y cyhoedd ac iechyd – er enghraifft, anafiadau a ddioddefir mewn mangreoedd trwyddedig sy'n gofyn am driniaeth feddygol. Mae cwympiadau yn cyfrannu at nifer yr unigolion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty am resymau sy'n gysylltiedig ag alcohol.

12.8 Gall ystyried a nodi materion sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd mewn ymatebion i gais am drwydded fod yn ffordd effeithiol o fynd i'r afael â'r materion hyn drwy osod amodau ar drwydded neu, mewn achosion mwy eithafol, drwy beidio â rhoi trwydded. Efallai y bydd y bwrdd iechyd, fel awdurdod cyfrifol, yn gallu darparu tystiolaeth o gyffredinolrwydd, costau ac effeithiau materion diogelwch cyhoeddus yn ôl yr angen.

12.9 Cafodd Deddf Terfysgaeth (Diogelu Mangreoedd) 2025, a elwir hefyd yn Gyfraith Martyn, Gydsyniad Brenhinol ddydd Iau 3 Ebrill 2025. Awdurdod y Diwydiant Diogelwch fydd y rheoleiddiwr. Unwaith y bydd y Ddeddf mewn grym, bydd yn ei gwneud yn ofynnol i rai mangreoedd a digwyddiadau sicrhau bod camau wedi'u cymryd i baratoi ar gyfer ymosodiadau terfysgol posibl, paratoi i helpu i gadw unigolion yn ddiogel os bydd ymosodiad, a chymryd camau i leihau pa mor agored i ymosodiadau gan derfysgwyr ydynt.

Mae cyrsiau hyfforddi ymwybyddiaeth gwrthderfysgaeth ACT (Action Counters Terrorism) ar gael am ddim ar gyfer mangreoedd trwyddedig ar gyfer gweithredwyr y lleoliadau hwnnw. Anogir goruchwyliwr dynodedig mangreoedd, a'r rhai mewn swyddi rheoli, yn gryf i ymgymryd â'r hyfforddiant hwn.

Mae rhagor o fanylion ynghylch Cyfraith Martyn ar gael ar wefannau'r Swyddfa Gartref a'r Awdurdod Diogelwch: https://www.gov.uk/government/news/martyns-law-to-ensure-stronger-protections-against-terrorism-in-public-places

## 13. Diogelu plant rhag niwed

13.1 Ni fydd dim yn y datganiad polisi hwn yn cyfyngu ar fynediad plant i fangreoedd, nac yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael mynediad i fangreoedd, oni bai ei fod yn ofynnol i'w hamddiffyn rhag niwed. Mae meysydd a fydd yn peri pryder penodol wedi'u hamlygu mewn mannau eraill yn y polisi hwn. Dylid ystyried rhinweddau unigol pob cais ym mhob achos.

13.2 Ac eithrio'r cyfyngiadau a bennir yn adran 145, nid yw'r Ddeddf yn gwahardd plant rhag cael mynediad rhydd i unrhyw fangre drwyddedig. Fodd bynnag, mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod y gallai fod yn rhaid ystyried cyfyngiadau pan fo'n ymddangos yn angenrheidiol i amddiffyn plant rhag niwed.

13.3 Ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn gosod unrhyw amod sy'n ei gwneud yn ofynnol yn benodol i blant gael mynediad i unrhyw safle. Pan na osodir unrhyw gyfyngiad, bydd y mater o fynediad yn parhau i fod yn fater yn ôl disgresiwn y fangre neu glwb unigol.

13.4 Mae'r Ddeddf yn manylu ar nifer o droseddau a gynlluniwyd i amddiffyn plant mewn mangreoedd trwyddedig a bydd yr awdurdod trwyddedu yn gweithio'n agos gyda'r heddlu i sicrhau bod y gyfraith yn cael ei gorfodi'n briodol, yn enwedig o ran gwerthu a chyflenwi alcohol i blant.

13.5 Ymgynghorir â swyddogion amddiffyn plant ar faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed. Mae'r adran trwyddedu yn gweithio gyda MACE Sir Benfro (Grŵp Camfanteisio ar Blant Amlasiantaeth) i godi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant mewn mangreoedd trwyddedig ac i hyrwyddo diogelu ac ymwybyddiaeth o gamfanteisio ar blant gyda mangreoedd trwyddedig.

13.6 Mae diogelu plant yn gyfrifoldeb pawb. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn drosedd a all effeithio ar unrhyw blentyn, unrhyw bryd, unrhyw le – waeth beth fo'i gefndir cymdeithasol neu ethnig. Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cynnwys troseddwyr yn meithrin perthynas â phobl ifanc ac yn defnyddio eu pwerau, a gall gymryd sawl ffurf, boed hynny drwy berthynas sy'n ymddangos yn 'gydsyniadol' gyda phartner hŷn neu gael rhyw yn gyfnewid am sylw, anrhegion, arian, alcohol a sigaréts. Mae trais, gorfodi a bygylu yn ffurfiau cyffredin o gamfanteisio, ac mae rhai plant agored i niwed yn cael cyffuriau neu'n cael eu gorfodi i werthu cyffuriau, a/neu'n cael eu gorfodi i fod yn rhan o rwydwaith llinellau cyffuriau.

13.7 Gall gwestai, bariau a bwytai, siopau cludfwyd hwyr y nos, siopau trwyddedig neu fangreoedd trwyddedig eraill ddod i gysylltiad â phlant o'r fath. Mae'r awdurdod hwn yn annog y mangreodd hynny i gadw llygad am arwyddion o gamfanteisio posibl. Dylai deiliaid trwyddedau a staff chwilio am y canlynol a gofyn y canlynol iddyn nhw eu hunain:

- A yw'n ymddangos bod plentyn mewn perthynas ag unigolyn hŷn?
- A yw'n ymddangos bod y plentyn dan ddylanwad alcohol neu gyffuriau?
- A yw oedolyn sy'n cadw ystafell mewn gwesty yn ceisio cuddio'r ffaith ei fod gyda pherson ifanc?
- Nifer o oedolion a phobl ifanc yn dod i westy nad yw'n ymddangos bod ganddynt reswm dros fod yno, neu lefelau uchel o ymwelwyr ag ystafell westeion, gyda gwesteion yn symud i mewn ac allan o'r fangre ar adegau anarferol
- Gwesteion yn cyrraedd ac yn gofyn am rif ystafell penodol heb wybod enw'r unigolyn y mae'r ystafell wedi'i chadw ar ei gyfer

13.8 At ddibenion diogelu plant, nid yw'r cyngor yn cefnogi systemau mewngofnodi digyswllt (derbynfa rithwir) lle na fydd unrhyw aelodau staff yn rhyngweithio â'r cwsmeriaid mewn gwesty.

Os oes pryderon, dylai deiliad y drwydded a'r staff roi gwybod am y mater naill ai i Ddiogelu Oedolion Sir Benfro trwy ffonio 01437 776056, i Ddiogelu Plant trwy ffonio 01437 776444, neu'r i'r heddlu trwy ffonio 101.

https://www.sir-benfro.gov.uk/diogelu-oedolion-a-phlant

Os oes unigolyn mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch yr heddlu ar 999.

13.9 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod, o'u cymharu ag oedolion, fod plant a phobl ifanc mewn mwy o berygl o niwed mewn perthynas â defnyddio ac yfed alcohol, a gall gael mwy o effaith ar iechyd. Mae plant a phobl ifanc hefyd yn fwy agored i niwed penodol mewn mangreoedd trwyddedig. Ar ben hynny, mae unigolion sy'n yfed alcohol yn rheolaidd pan maent yn rhy ifanc yn cynyddu eu risgiau oes o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

13.10 Mae plant a phobl ifanc yn agored i'r effaith y gall alcohol ei chael ar eu hiechyd a'u datblygiad mewn sawl ffordd. Mae ganddyn nhw lefelau uwch o fregusrwydd a risg sy'n gysylltiedig â bod ar fangre drwyddedig y mae angen eu hystyried a'u trafod yn briodol mewn polisïau, arferion a phrosesau trwyddedu. Mae'n debygol y bydd effaith sylweddol o blentyn neu berson ifanc sy'n dioddef salwch, anaf neu ddibyniaeth o ganlyniad i fynediad at alcohol a mangreoedd trwyddedig yn cael ei hysgwyddo gan y bwrdd iechyd.

Mae'r awdurdod trwyddedu hefyd yn cydnabod effaith ddifrifol camddefnyddio alcohol gan rieni a'r deilliannau hirdymor i blant (h.y. profiadau niweidiol yn ystod plentyndod). Gall lleihau faint o alcohol y mae rhieni'n ei yfed mewn ffordd niweidiol gael effaith fuddiol ar leihau anawsterau yn ystod plentyndod yn yr amgylchedd cartref (e.e. gostyngiad mewn trais, yn enwedig cam-drin domestig).

13.11 Mae tystiolaeth yn dangos bod pobl ifanc yn fwy agored i effeithiau andwyol alcohol nag oedolion oherwydd amrywiaeth o ffactorau corfforol a seicogymdeithasol. Felly cefnogir mentrau i atal gwerthu a chyflenwi alcohol i bobl ifanc.

13.12 Mae'r awdurdod yn disgwyl i fangreoedd trwyddedig sy'n gwerthu a chyflenwi alcohol roi mesurau gwirio oedran ar waith er mwyn sicrhau bod yr amcan trwyddedu ar gyfer amddiffyn plant yn cael ei gyflawni.

Gall ymgeiswyr gyfeirio at y gronfa o amodau i gael enghreifftiau o reolaethau.
Mae materion y gallai fod angen ystyriaeth bellach yn cynnwys:

**Gwerthiannau trwy ddirprwy:**

- Rhaid i weithdrefnau digonol fod ar waith i sicrhau bod pob aelod o staff sy'n gweithio yn y fangre yn cael eu hyfforddi'n rheolaidd a'u hatgoffa'n rheolaidd o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â gwerthu alcohol drwy ddirprwy a rhaid sicrhau bod pob cam a gweithdrefn resymol ar waith ac yn cael eu gweithredu i atal oedolion rhag prynu alcohol ar gyfer unigolion dan oed.

**Dosbarthu alcohol**

- Dosbarthu alcohol / gyrwyr danfon nwyddau. Rhaid i gamau fod ar waith i sicrhau bod unrhyw goruchwylwyr dynodedig mangreoedd ac aelodau o staff sy'n ymwneud â dosbarthu alcohol i gyfeiriadau preswyl yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i sicrhau nad yw unrhyw alcohol yn cael ei werthu i unigolion dan oed.

**Cyflogi plant**

- Ni chaniateir i blentyn werthu alcohol neu, yn achos clwb, gyflenwi alcohol oni bai fod person cyfrifol wedi awdurdodi hynny, gan na ddylid byth adael plentyn o'r fath i weini alcohol ar ei ben ei hun. Nid oes angen awdurdodiad os yw plentyn yn gweini bwrdd lle mae alcohol yn rhan o bryd o fwyd wrth fwrdd. Efallai y bydd angen trwydded gyflogaeth ar gyfer plant hefyd. Gweler: https://www.sir-benfro.gov.uk/presenoldeb-ysgolion-a-lles-disgyblion/cyflogi-plant

## 14. Hawl i wneud sylwadau

14.1 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl i ymgeiswyr fynd i'r afael â'r amcanion trwyddedu yn eu hamserlenni gweithredu, gan ystyried y math o fangre, y gweithgareddau trwyddedadwy i'w darparu, y gweithdrefnau gweithredol, natur y lleoliad, ac anghenion y gymuned leol. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhai sydd â hawl i wneud sylwadau neu wrthwynebiadau yn gallu asesu'n llawn y ffactorau y gallent effeithio arnynt.

14.2 Gall awdurdod cyfrifol, 'personau eraill' neu sefydliadau sy'n eu cynrychioli wneud sylwadau perthnasol, ond dylent ddatgan a ydynt yn gwneud sylwadau ar eu rhan eu hunain neu ar ran rhywun arall.

14.3 Mae diwygiadau i'r Ddeddf wedi mewnosod y term 'person arall' i ddisodli 'parti â diddordeb' fel unigolyn a all gyflwyno sylwadau. Fe wnaeth hefyd ddileu'r prawf cyfagosrwydd ar gyfer trigolion a therm penodol, sef 'cynghorydd'. Mae hyn yn ehangu'r ystod o bersonau a all gyflwyno sylwadau ac mae'n cynnwys, er enghraifft, y canlynol:

- Preswylwyr sy'n byw ger y fangre
- Personau sydd â diddordeb sy'n ymwneud â'r fangre neu'r ardal leol
- Cynghorwyr lleol
- Busnesau sydd â diddordeb sy'n ymwneud â'r adeilad neu'r ardal leol
- Sefydliadau sydd â diddordeb sy'n ymwneud â'r ardal leol, y fangre, neu'r gweithgareddau trwyddedadwy

Bydd yn rhaid i'r cyngor benderfynu a yw'r sylwadau'n berthnasol a/neu'n rhesymol, ac wrth wneud yr asesiad hwnnw, bydd yn asesu'r person neu'r sefydliad sy'n gwneud y sylwadau a'u perthynas â'r fangre a/neu'r cyffiniau.

14.4 Ystyrir bod sylwadau perthnasol yn rhai sy'n ymwneud ag egwyddorion sylfaenol y Ddeddf, ac felly bydd angen i unrhyw sefydliad neu unigolyn sy'n dymuno gwrthwynebu unrhyw gais ddatgan a ydynt yn gwneud hynny ar sail un neu fwy o amcanion trwyddedu:

- Atal trosedd ac anhrefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus

Amddiffyn plant rhag niwed

Mae ffurflen sylwadau ar-lein ar gael.

14.5 Bydd sylwadau afresymol, gwacsaw a blinderus yn cael eu hanwybyddu. Gellir anwybyddu sylwadau sydd wedi'u cyflwyno a'u hystyried mewn man arall – er enghraifft, fel gwrthwynebiad i gais cynllunio – hefyd lle byddai ystyried sylwadau o'r fath yn dyblygu'r broses flaenorol.

14.6 Gellir derbyn deisebau os yw'r awdurdod yn credu bod pawb a lofnododd y ddeiseb wedi deall goblygiadau'r hyn yr oeddent yn ei lofnodi. Cyfeiriwch at adran 28.24 am ganllawiau pellach.

## 15. Awdurdodau cyfrifol

15.1 Mae'r Ddeddf fel y'i diwygiwyd yn nodi pa awdurdodau cyfrifol a all gyflwyno sylwadau ar geisiadau neu wneud cais am adolygiad o drwydded mangre neu dystysgrif mangre sy'n glwb, sef:

- Prif Swyddog yr Heddlu
- Yr awdurdod tân
- Yr awdurdod gorfodi ar gyfer iechyd a diogelwch yn y gwaith
- Yr awdurdod cynllunio lleol
- Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am leihau neu atal y risg o lygru'r amgylchedd neu achosi niwed i iechyd unigolion
- Yr awdurdod pwysau a mesurau lleol
- Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r corff sy'n cynrychioli materion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant rhag niwed, sef y Bwrdd Diogelu Plant ac Oedolion Rhanbarthol ar hyn o bryd
- Mewn perthynas â llong, awdurdod mordwyo, Asiantaeth yr Amgylchedd neu Fwrdd Dyfrffyrdd Prydain
- Y Bwrdd Iechyd Lleol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)
- Yr awdurdod trwyddedu (y cyngor)
- Mewnfudo (adran gorfodi'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â mewnfudo)

Mae manylion cyswllt llawn ar gael yn adran 25.

## 16. Personau eraill

16.1 Gall unrhyw berson gyflwyno sylwadau mewn perthynas â mathau penodol o geisiadau fel "person arall". Fodd bynnag, rhaid i bob sylw ymwneud â'r amcanion trwyddedu ac ni chânt fod yn wacsaw nac yn flinderus.

## 17. Integreiddio strategaethau

17.1 Mae canllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol i Ddeddf Trwyddedu 2003 yn nodi y dylai'r awdurdod trwyddedu amlinellu sut y bydd yn sicrhau integreiddio priodol rhwng ei bolisi trwyddedu a pholisïau a strategaethau sy'n ymwneud ag atal troseddau lleol, cynllunio, trafnidiaeth, twristiaeth, cynlluniau cydraddoldeb, strategaethau diwylliannol, ac unrhyw bolisi neu gynllun arall a gyflwynir ar gyfer rheoli canol trefi ac economïau nos. Mae'r awdurdod trwyddedu yn cytuno bod cydlynu ac integreiddio o'r fath yn hanfodol i gyflawni nodau'r cyngor ar gyfer economi nos ddiogel a bywiog. Gall darnau eraill o ddeddfwriaeth effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar y gyfundrefn drwyddedu. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu ystyried y canlynol wrth gyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 ac mewn perthynas â hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.

17.2 **Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998**

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff eraill ystyried lleihau trosedd ac anhrefn. Mae adran 17 o'r Ddeddf yn nodi y bydd yn ddyletswydd ar bob awdurdod i arfer ei amrywiol swyddogaethau wrth roi sylw dyledus i'r effaith debygol y bydd arfer y swyddogaethau hynny yn ei chael ar drosedd ac anhrefn yn ei ardal (gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymddygiad arall sy'n effeithio'n andwyol ar yr amgylchedd lleol), a'r angen i wneud popeth y gall yn rhesymol i'w hatal. Mae hyn yn cysylltu'n benodol â'r amcan trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn a bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried pob mesur rhesymol sy'n hyrwyddo'r amcan trwyddedu hwn yn weithredol.

17.3 **Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014**

Mae'r Ddeddf hon yn rhoi ystod eang o bwerau i awdurdodau lleol a'r heddlu i fynd i'r afael ag achosion o droseddu, anhrefn a niwsans a allai fod yn effeithio ar drigolion. Cyflwynodd y Ddeddf orchmynion diogelu mewn perthynas â mannau cyhoeddus, sy'n caniatáu i'r awdurdod lleol ddynodi ardaloedd lle bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol fel yfed ar y stryd yn cael ei wahardd. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i'r awdurdod lleol a'r heddlu gau mangreoedd trwyddedig lle mae niwsans ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd. Felly mae'r Ddeddf hon yn amlwg yn cefnogi ac yn hyrwyddo'n weithredol yr amcanion trwyddedu sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Trwyddedu 2003.

17.4 **Deddf Mewnfudo 2016**

Gwnaeth adran 36 ac Atodlen 4 o Ddeddf Mewnfudo 2016 ddiwygio Deddf Trwyddedu 2003 a gwnaethant adran gorfodi'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â mewnfudo yn awdurdod cyfrifol sy'n ymwneud ag amcan trwyddedu atal trosedd ac anhrefn. Byddant yn arfer eu pŵer o ran bod yn ymgynghorai ar geisiadau trwydded newydd a chael hawl mynediad i fangreoedd trwyddedig, gyda'r bwriad o weld a yw trosedd o dan unrhyw un o'r Deddfau Mewnfudo yn cael ei gyflawni ar fangre drwyddedig. Bydd hyn yn bennaf yn

cynnwys canfod ac atal gweithio anghyfreithlon ar fangreoedd sydd â thrwydded alcohol neu drwydded lluniaeth hwyr y nos. Mae'r drosedd o gyflogi unigolion mewn mangreoedd trwyddedig nad oes ganddynt hawl i weithio yn y DU bellach wedi'i rhestru yng nghanllawiau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 11.27, sy'n ymdrin â gweithgarwch troseddol a ystyrir yn arbennig o ddifrifol a lle dylai awdurdod trwyddedu ystyried dirymu trwydded mangre yn y lle cyntaf hyd yn oed. Mae'r Ddeddf hon yn amlwg yn cefnogi ac yn hyrwyddo'n weithredol yr amcan trwyddedu o atal trosedd ac anhrefn a bydd yr awdurdod trwyddedu yn gweithio gyda chydweithwyr yn y gwasanaeth mewnfudo a Heddlu Dyfed-Powys i orfodi hyn.

https://www.gov.uk/prove-right-to-work

17.5 **Deddf Hawliau Dynol 1998**

Mae gan y cyngor ddyletswydd o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol i amddiffyn hawliau preswylwyr i breifatrwydd a bywyd teuluol (Erthygl 8), a hawliau deiliad trwydded i weithredu eu busnes heb ymyrraeth ormodol (Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf). Mae hyn yn hyrwyddo'r angen i'r awdurdod trwyddedu sicrhau cydbwysedd rhwng y ddwy egwyddor hyn wrth wneud penderfyniadau.

17.6 **Deddf Cydraddoldeb 2010**

Mae'r Ddeddf yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol ar awdurdodau cyhoeddus i ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, i hyrwyddo cyfle cyfartal, ac i feithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt. Mae nodweddion gwarchodedig yn cynnwys oedran, anabledd, hil, crefydd, a chyfeiriadedd rhywiol. Wrth wneud penderfyniad, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried hyn, gyda'r nod o sicrhau bod yr economi nos yn ddiogel ac yn hygyrch i bawb.

**Deddfwriaeth arall y bydd yr awdurdod trwyddedu yn ei hystyried:**

17.7 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac atal problemau parhaus, fel tlodi, anghydraddoldebau o ran iechyd, a newid hinsawdd. Mae'r Ddeddf yn amlwg yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu yn weithredol. Mae'r Ddeddf hon yn cysylltu'n benodol ag amcanion atal trosedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus. Mae'n cydnabod bod angen creu seinweddau priodol – yr amgylchedd acwstig cywir, y sain gywir, ar yr amser cywir ac yn y lle cywir. Bydd yr awdurdod lleol yn ystyried rheoli sŵn a seinweddau ac yn benodol y pum ffordd o weithio sydd wedi'u cynnwys o dan y Ddeddf hon, sef:

i) Hirdymor – pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd

ii) Integreiddio

iii) Cyfranogiad

iv) Cydweithredu

v) Atal

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu 'Cynllun Gweithredu ynghylch Sŵn a Seinwedd 2018-2023' https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/cynllun-gweithredu-ynghylch-swn-a-seinwedd.pdf

17.8 **Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a hysbyswyd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd)**

Cynghorir perchnogion a meddianwyr tir lle cynhelir digwyddiad lle mae'r tir dan sylw wedi'i gynnwys o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a hysbyswyd o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) i geisio cyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) cyn dechrau'r digwyddiad. Bydd angen cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw gan CNC ar gyfer gweithrediadau neu weithgareddau a ystyrir y gallent fod yn niweidiol i nodweddion dynodedig y safle oni bai eu bod yn rhan fel arall o gytundeb rheoli a baratowyd yn unol â deddfwriaeth berthnasol. Gall methu â chael unrhyw gydsyniad angenrheidiol a chydymffurfio â'i amodau heb esgus rhesymol fod yn drosedd.

Gall person sy'n trefnu, hwyluso neu fynd i ddigwyddiad sydd, heb esgus rhesymol, yn dinistrio neu'n difrodi nodweddion dynodedig SoDdGA yn fwriadol neu'n ddi-hid, neu'n tarfu ar ffawna dynodedig SoDdGA yn fwriadol neu'n ddi-hid, fod yn cyflawni trosedd. Gall y drosedd hon fod yn berthnasol i ddifrod neu aflonyddwch sy'n digwydd ar dir y tu allan i ffin y digwyddiad. Cynghorir trefnwyr digwyddiadau i gysylltu ag CNC i gael cyngor cyn dechrau'r digwyddiad.

Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyfarwyddyd i berchnogion a deiliaid Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)

Gellir cysylltu ag CNC trwy ffonio 0300 065 3000.

17.9 Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth ganlynol pan fydd yn penderfynu cyflawni ei gyfrifoldebau o dan y Ddeddf Trwyddedu(nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr):

- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, sy'n ymdrin â sŵn a niwsans
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio 2005, sy'n ymdrin â diogelwch tân
- Deddf Priffyrdd 1980, sy'n ymdrin â thrwyddedau caffis palmant

17.10 Bydd yr awdurdod trwyddedu, cyn belled ag y bo modd, yn ceisio osgoi dyblygu cyfundrefnau rheoleiddio eraill wrth ymdrin â'r swyddogaeth drwyddedu. Os yw cyfraith arall sy'n bodoli eisoes yn gosod cyfrifoldebau statudol penodol ar gyflogwr neu weithredwr mangre, ni all fod yn briodol nac yn gymesur gosod yr un dyletswyddau neu ddyletswyddau tebyg ar ddeiliad y drwydded mangre neu'r clwb. Unwaith y bydd yr awdurdod trwyddedu yn gallu gwneud penderfyniadau yn ôl disgresiwn, dim ond pan fydd mesurau ychwanegol ac atodol yn briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu y bydd amodau priodol a chymesur yn berthnasol i drwydded.

17.11 Gall polisïau, strategaethau, cyfrifoldebau a dogfennau canllaw eraill yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gyfeirio at y swyddogaeth drwyddedu hefyd, a gall yr awdurdod trwyddedu gysylltu â'r awdurdodau perthnasol neu ei gyfarwyddiaethau ynghylch y rhain. Er efallai nad yw rhai o'r rhain yn uniongyrchol gysylltiedig â hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, gallant effeithio'n anuniongyrchol arnynt.

17.12 Er enghraifft, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cysylltu'n agos â'r Timau Plismona Bro lleol ac yn gwerthuso data a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd Lleol i nodi tueddiadau er mwyn sicrhau y gall yr awdurdod lleol ddatblygu strategaethau effeithiol sy'n ystyried yn llawn faterion trosedd ac anhrefn lleol.

17.13 Bwriad yr awdurdod lleol yw, drwy ei Bwyllgor Trwyddedu, monitro sut mae'r materion hyn, fel y nodir uchod, yn effeithio ar drwyddedu a swyddogaethau eraill yr awdurdod, er mwyn iddo allu ceisio cydlynu ac integreiddio ei swyddogaeth drwyddedu â strategaethau perthnasol eraill.

17.14 Gall yr awdurdod lleol, mewn amgylchiadau priodol, ystyried ceisio trwyddedau mangre gan yr awdurdod trwyddedu gan ddefnyddio ei enw ei hun ar gyfer ei fannau cyhoeddus ei hun o fewn y gymuned.

17.14 O ran strategaethau diwylliannol, bydd yr awdurdod trwyddedu, er enghraifft, drwy ymgynghori â swyddogion gwasanaethau hamdden a diwylliannol lleol, yn ystyried a yw gofynion trwyddedu lleol yn rhwystro darparu cerddoriaeth fyw a gweithgareddau ac adloniant diwylliannol. Pan fo unrhyw arwydd bod hyn yn wir, gall yr awdurdod trwyddedu ystyried ymchwilio i sut y gellid gwrthdroi'r sefyllfa ac, os oes angen, yng ngoleuni ymchwiliadau o'r fath, ystyried diwygio'r datganiad polisi trwyddedu.

**Perthynas â'r broses gynllunio**

17.15 Fel arfer, dylai ceisiadau am drwydded mangre ar gyfer mangreoedd masnachol parhaol fod gan fusnesau sydd â chydsyniad cynllunio ar gyfer yr eiddo dan sylw. Fodd bynnag, gellir gwneud ceisiadau am drwyddedau cyn i unrhyw gydsyniad cynllunio perthnasol gael ei geisio neu ei roi gan yr awdurdod cynllunio lleol.

17.16 Argymhellir yn gryf bod darpar ymgeiswyr am drwyddedau yn cysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol cyn gwneud cais am drwydded er mwyn gwirio, neu geisio cyngor ynghylch, unrhyw gydsyniadau cynllunio neu unrhyw amodau sy'n berthnasol i ddefnyddio'r fangre. Mae'n amlwg yn gwneud synnwyr gweithredol i sicrhau bod cynllunio a thrwyddedu yn gydnaws.

https://www.sir-benfro.gov.uk/cynllunio-a-rheoli-adeiladau

Cynllunio – Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

17.17 Mae'r awdurdod trwyddedu yn dymuno pwysleisio na fyddai rhoi unrhyw amrywiad i drwydded gan y Pwyllgor Trwyddedu sy'n cynnwys newid sylweddol i adeilad yn rhyddhau'r ymgeisydd o'r angen i wneud cais am ganiatâd cynllunio neu gydsyniad rheolaeth adeiladu pan fo'n briodol.

17.18 Bydd yr awdurdod lleol yn anelu at wahanu cyfundrefnau cynllunio, rheolaeth adeiladu a thrwyddedu yn briodol er mwyn osgoi dyblygu ac aneffeithlonrwydd. Mae'r cyfundrefnau trwyddedu a chynllunio yn cynnwys ystyried materion gwahanol, er eu bod yn gysylltiedig. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cysylltu â'r awdurdod cynllunio perthnasol ynghylch trwyddedau mangreoedd, ceisiadau mangreoedd neu geisiadau cynllunio er mwyn osgoi unrhyw wrthdaro rhwng y ddwy gyfundrefn lle bynnag y bo modd.

17.19 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn osgoi trin ceisiadau trwyddedu fel ailadrodd ceisiadau cynllunio, ac ni fydd fel arfer:

- yn mynd yn groes i benderfyniadau a gymerwyd gan yr awdurdod cynllunio lleol neu yn dilyn penderfyniadau apêl a gymerwyd gan yr awdurdod hwnnw
- yn gosod amodau trwyddedu lle mae'r un amodau neu amodau tebyg wedi'u gosod ar gydsyniad cynllunio

17.20 Nid yw'r awdurdod trwyddedu wedi'i rwymo gan benderfyniadau a wneir gan yr awdurdod cynllunio lleol ac i'r gwrthwyneb.

17.21 Mae yna amgylchiadau hefyd pan fydd awr derfynol wedi'i gosod, fel amod ar gyfer caniatâd cynllunio, ar gyfer defnyddio mangre at ddibenion masnachol. Pan fo'r oriau hyn yn wahanol i'r oriau trwyddedu, rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r amser cau cynharach. Byddai mangreoedd sy'n gweithredu'n groes i'w caniatâd cynllunio yn agored i erlyniad o dan gyfraith gynllunio, ac i'r gwrthwyneb pan fo oriau'r drwydded yn dod i ben yn gynharach na'r oriau a roddir gan ganiatâd cynllunio.

## 18. Trwydded bersonol

18.1 Mae'r cyngor yn cydnabod nad oes ganddo lawer o ddisgresiwn wrth roi trwydded bersonol. Yn gyffredinol, rhaid caniatáu'r cais ar yr amod bod ymgeisydd yn 18 oed neu'n hŷn, â hawl i weithio yn y DU, â chymhwyster cymeradwy, nad yw ei drwydded bersonol wedi'i fforffedu o fewn pum mlynedd i'r cais hwn, ac nad oes ganddo euogfarnau troseddol perthnasol na chosb sifil a gafwyd ar ôl 6 Ebrill 2017 ar gyfer materion sy'n ymwneud â mewnfudo.

18.2 Rhaid i unigolion sy'n gwneud cais am drwydded bersonol fod â hawl i weithio yn y DU. Ni ddylid rhoi trwyddedau i unigolion sy'n bresennol yn anghyfreithlon yn y DU nad oes ganddynt ganiatâd i weithio, neu sydd â chaniatâd i weithio ond sy'n ddarostyngedig i amod sy'n eu gwahardd rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud â chynnal gweithgaredd trwyddedadwy.

18.3 Pan fo caniatâd mewnfudo ymgeisydd i fyw a gweithio yn y DU wedi'i gyfyngu gan amser, gellir rhoi trwydded bersonol ond bydd yn dod yn annilys pan fydd y caniatâd mewnfudo yn dod i ben. Os bydd y Swyddfa Gartref yn dod â chaniatâd mewnfudo unigolyn i ben yn gynnar neu'n ei derfynu, bydd unrhyw drwydded bersonol a roddwyd mewn perthynas â chais a wnaed ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017 yn dod i ben yn awtomatig.

18.4 Os yw ymgeisydd yn datgan ei fod wedi cael cosb fewnfudo neu wedi cael ei gael yn euog o drosedd fewnfudo neu drosedd dramor sy'n gymharol â throsedd fewnfudo, mae'n ofynnol i'r awdurdod trwyddedu hysbysu Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref (trwy adran orfodi'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â mewnfudo).

18.5 Os oes gan ymgeisydd euogfarn berthnasol, gall yr heddlu wrthwynebu'r cais. Os yw ymgeisydd wedi cael cosb fewnfudo neu wedi cael ei gael yn euog o drosedd fewnfudo berthnasol ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017, gall y Swyddfa Gartref wrthwynebu'r cais. Pan gyflwynir gwrthwynebiad, rhaid cynnal gwrandawiad.

18.6 Anogir ymgeiswyr sydd ag euogfarnau troseddol heb eu disbyddu am droseddau perthnasol fel y nodir yn y rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf i drafod eu cais yn gyntaf gyda swyddog trwyddedu'r cyngor a/neu'r heddlu.

18.7 Mewn gwrandawiad mewn perthynas â gwrthwynebiad i roi trwydded bersonol, neu ddirymu trwydded bresennol, bydd y cyngor yn ystyried yn ofalus a fydd rhoi'r drwydded, neu barhau i'w dyroddi, er budd yr amcan atal troseddu. Bydd yn ystyried difrifoldeb a pherthnasedd unrhyw euogfarn(au), y cyfnod sydd wedi mynd heibio ers i'r drosedd neu droseddau gael eu cyflawni, ac unrhyw amgylchiadau lliniarol. Dim ond os yw'n fodlon y bydd gwneud hynny'n hyrwyddo'r amcan hwn y bydd y cyngor yn caniatáu'r cais.

18.8 Mae atal troseddu yn amcan i'r Ddeddf ac yn gyfrifoldeb i'r cyngor o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Dylai person sy'n dal trwydded bersonol fod nid yn unig yn berson sydd â'r cymwysterau priodol ond yn berson a fydd yn cynorthwyo i atal troseddu. Gallai rhoi trwydded i berson sydd â chofnod troseddol perthnasol danseilio yn hytrach na hyrwyddo'r

amcan atal troseddu.

18.9 O 6 Ebrill 2017 ymlaen, mae Deddf Plismona a Throseddu 2017 yn rhoi'r pŵer i awdurdodau trwyddedu ddirymu neu atal trwyddedau personol. Mae hwn yn bŵer yn ôl disgresiwn a gellir ei ymgymryd ag ef pan fydd awdurdod trwyddedu yn dod yn ymwybodol bod deiliad y drwydded wedi'i gael yn euog o drosedd berthnasol neu drosedd dramor neu wedi gorfod talu cosb fewnfudo ar neu ar ôl 6 Ebrill 2017. Bydd yr awdurdod yn cysylltu â swyddog trwyddedu'r heddlu yn y lle cyntaf a dim ond os yw'n cefnogi camau i atal neu ddirymu y bydd y mater yn cael ei gyfeirio at is-bwyllgor trwyddedu i wneud penderfyniad. Gall yr is-bwyllgor trwyddedu ddirymu'r drwydded neu ei hatal am gyfnod o hyd at chwe mis.

18.10 **Goruchwyliwr dynodedig mangre**

Rhaid i unrhyw drwydded mangre sy'n awdurdodi gwerthu alcohol nodi deiliad trwydded bersonol fel y goruchwyliwr dynodedig mangre. Mae eithriad ar gyfer mangreoedd cymunedol sydd wedi gwneud cais llwyddiannus i ddileu'r gofyniad am oruchwyliwr dynodedig mangre.

18.11 Mae'r canllawiau statudol yn nodi mai'r goruchwyliwr dynodedig mangre fel arfer fydd y person sydd wedi cael cyfrifoldeb o ddydd i ddydd am weithredu'r fangre gan ddeiliad y drwydded mangre. Pan fo goruchwyliwr dynodedig mangre yn absennol o'r fangre yn bennaf ac nad yw'n gallu dangos yn foddhaol ei fod yn gyfrifol am reoli'r fangre o ddydd i ddydd ac am awdurdodi gwerthiannau alcohol, byddwn yn annog ac yn disgwyl i ddeiliad y drwydded mangre benodi person arall priodol i fod yn oruchwyliwr dynodedig mangre.

Ni chaniateir cyflenwi alcohol o dan drwydded mangre os nad oes goruchwyliwr dynodedig mangre mewn perthynas â'r drwydded. Mae'r un peth yn berthnasol os nad oes gan y goruchwyliwr dynodedig mangre a bennir ar y drwydded drwydded bersonol neu os yw wedi'i hatal.

18.12 Gall yr heddlu wrthwynebu dynodiad goruchwyliwr dynodedig mangre newydd lle maent, mewn amgylchiadau eithriadol, yn credu y bydd y penodiad yn tanseilio'r amcan atal troseddu. Pan geir gwrthwynebiad gan yr heddlu, cynhelir gwrandawiad gan is-bwyllgor trwyddedu'r cyngor yn unol â'i god ymddygiad ar gyfer gwrando ar geisiadau. Gellir tynnu goruchwyliwr dynodedig mangre oddi ar drwydded mangre yn dilyn gwrandawiad i adolygu cais lle bo'n briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

18.13 **Mangreoedd cymunedol**

Gall mangreoedd cymunedol, fel eglwys neu neuadd bentref, sy'n dymuno gwerthu alcohol wneud cais i gael amod trwydded gorfodol amgen yn lle dynodi goruchwyliwr dynodedig mangre ar y drwydded. Dim ond os yw'r gweithredwr yn bwyllgor neu fwrdd o unigolion

sydd â chyfrifoldeb am reoli'r fangre, y cyfeirir ato fel y "Pwyllgor Rheoli", neu os bydd felly, y caniateir gwneud y cais.

18.14 Bydd gofyn i'r Pwyllgor Rheoli ddarparu manylion sy'n cynnwys sut mae'r fangre'n cael ei rheoli, strwythur y pwyllgor, a sut mae gwerthu alcohol yn cael ei oruchwylio mewn gwahanol sefyllfaoedd (pan fydd y neuadd yn cael ei llogi ar gyfer partïon preifat, er enghraifft).

18.15 Os rhoddir yr amod trwydded amgen, yr effaith yw y bydd y Pwyllgor Rheoli yn gyfrifol am oruchwylio ac awdurdodi pob gwerthiant alcohol. Ni fydd unrhyw ofyniad i oruchwyliwr dynodedig mangre nac i werthiannau alcohol gael eu hawdurdodi gan ddeiliad trwydded bersonol.

18.16 Dylid nodi y gall yr heddlu, mewn amgylchiadau eithriadol, wrthwynebu cais i gynnwys yr amod trwydded amgen ar sail trosedd ac anhrefn.

18.17 Pan geir gwrthwynebiad gan yr heddlu, cynhelir gwrandawiad gan is-bwyllgor trwyddedu'r cyngor yn unol â'i god ymddygiad ar gyfer gwrando ar geisiadau.

18.18 Gellir adfer yr amod trwydded gorfodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i oruchwyliwr dynodedig mangre gael ei ddefnyddio yn dilyn gwrandawiad i adolygu cais pan fo'n briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

## 19. Trwydded mangre

19.1 Rhoddir trwydded mangre mewn perthynas ag unrhyw fangre, ac eithrio clwb aelodau preifat neu fangre debyg, sydd wedi'i hawdurdodi ar gyfer un neu fwy o weithgareddau trwyddedadwy, megis cyflenwi alcohol, lluniaeth hwyr y nos, neu adloniant wedi'i reoleiddio.

19.2 Mae rhai eithriadau ar gyfer y gofyniad am drwydded ac maent yn cynnwys dangos ffilmiau at resymau addysgol neu hyrwyddo, ffilmiau a ddangosir fel rhan o arddangosfa, a cherddoriaeth fyw a recordiedig sy'n defnyddio mwyhadur i gynulleidfaoedd o lai na 500 o unigolion rhwng 8am ac 11pm. Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu â'r awdurdod trwyddedu i gael rhagor o arweiniad ynghylch eithriadau eraill.

19.3 Pan gyflenwir alcohol, rhaid enwebu goruchwyliwr dynodedig mangre, y mae'n rhaid iddo fod yn ddeiliad trwydded bersonol, i awdurdodi gwerthu alcohol ar y fangre.

19.4 Rhoddir trwyddedau mangre i unigolion dros 18 oed sy'n cynnal, neu'n bwriadu cynnal, busnes sy'n cynnwys defnyddio'r fangre ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy. Yn ogystal, gall elusennau, cyrff gwasanaeth iechyd, sefydliadau addysgol, a phersonau o ddisgrifiadau rhagnodedig eraill wneud cais am drwydded mangre.

19.5 Gellir rhoi trwydded yn destun amodau y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw bob amser tra bod y fangre yn cael ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr amseroedd a bennir gan y drwydded. Gall methu â chydymffurfio â thelerau ac amodau trwydded neu gynnal gweithgareddau trwyddedadwy heb drwydded mangre arwain at ddirwy ddiderfyn, neu garchar o hyd at chwe mis, neu'r ddau.

19.6 Mae ffioedd am drwyddedau yn seiliedig ar werth ardrethol mangre ac, er bod trwyddedau fel arfer yn cael eu rhoi am gyfnod amhenodol, mae ffi flynyddol yn daladwy.

19.7 Disgwylir y bydd deiliad y drwydded mangre a goruchwyliwr dynodedig mangre yn ymwybodol o'r mathau o weithgareddau trwyddedadwy y caniateir iddynt eu cynnal, yr oriau a ganiateir, ac amodau'r drwydded. Gallai methu â dangos parch neu ddangos diffyg parch arwain at ddiffyg hyder yn y rheolwyr gan awdurdod cyfrifol.

19.8 **"Trwyddedau cysgodol"**
Nid oes dim o fewn Deddf 2003 sy'n atal dau awdurdodiad neu fwy rhag bod ar waith ar yr un pryd mewn perthynas â'r un fangre yn ei chyfanrwydd neu ran ohoni neu mewn perthynas â'r un person(adran 2, Deddf Trwyddedu 2003). Mae canllawiau adran 182 yn nodi ymhellach ym mharagraff 8.19: "Nid oes dim yn Neddf 2003 sy'n atal gwneud cais am drwydded mangre mewn mangre lle mae trwydded mangre eisoes yn cael ei dal." Gall trwyddedau cysgodol ddigwydd pan fo landlord, er enghraifft, yn ceisio amddiffyn y drwydded mangre drwy greu "trwydded gysgodol" pan fo'r drwydded yn cael ei gweithredu gan denant. Fel arfer, crëir trwyddedau cysgodol ar yr un telerau â'r drwydded mangre bresennol. Wrth roi trwydded ar gyfer mangre sydd eisoes yn dal trwydded mangre, gall yr awdurdodau cyfrifol geisio ychwanegu amodau at y drwydded ychwanegol sy'n adlewyrchu'r drwydded mangre gyfredol.

Mae awdurdodau cyfrifol hefyd yn gallu adolygu'r drwydded gysgodol pryd bynnag y bydd y drwydded wreiddiol yn cael ei hadolygu. Rhaid iddo fod yn glir i'r awdurdodau cyfrifol bob amser pa drwydded sydd ar waith er mwyn osgoi dau unigolyn rhag masnachu o fewn yr un ardal drwyddedig ar yr un pryd o dan drwyddedau mangre gwahanol.

## 20. Tystysgrif mangre clwb

20.1 Gall clwb cymwys, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, cymdeithas gyfeillgar neu sefydliad lles glowyr sy'n bodloni'r meini prawf a bennir yn Rhan 4 o'r Ddeddf ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy i'w aelodau a gwesteion aelod sydd wedi'u hawdurdodi gan dystysgrif mangre clwb.

20.2 Dim ond er budd ei aelodau a'u gwesteion y mae tystysgrif mangre clwb yn awdurdodi defnyddio mangre ac ni ellir ei defnyddio i ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy i unigolion nad ydynt yn aelodau. Os yw'r fangre i'w defnyddio i ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy i unigolion nad ydynt yn aelodau, bydd angen awdurdodiad ychwanegol. Gall hyn fod yn drwydded mangre neu'n hysbysiad digwyddiad dros dro.

20.3 Mae mangre sy'n gweithredu o dan awdurdodiad tystysgrif mangre clwb yn mwynhau breintiau arbennig. Os yw mangre clwb yn gweithredu o dan awdurdodiad trwydded mangre neu hysbysiad digwyddiad dros dro, nid yw'r breintiau'n berthnasol. Mae'r breintiau'n cynnwys hawliau mynediad cyfyngedig a dim gofyniad i berson cymwys awdurdodi cyflenwi alcohol. Ystyriaethau eraill fyddai rheolau trethiant gwahanol, y dylid ceisio cyngor gan CThEF yn eu cylch.

20.4 Disgwylir y bydd deiliad y dystysgrif mangre clwb yn ymwybodol o'r mathau o weithgareddau trwyddedadwy a ganiateir, yr oriau a ganiateir, ac amodau'r drwydded. Gallai methu â dangos parch neu ddangos diffyg parch arwain at ddiffyg hyder yn y rheolwyr gan awdurdod cyfrifol.

## 21. Hysbysiadau digwyddiadau dros dro

21.1 Gellir defnyddio hysbysiadau digwyddiadau dros dro i ganiatáu i weithgareddau trwyddedadwy gael eu cynnal ar sail untro neu'n achlysurol. Nhw yw'r math mwyaf priodol o awdurdodiad ar gyfer digwyddiadau bach, untro, megis digwyddiadau codi arian gan y gymuned, ysgolion ac elusennau, lle bwriedir un o'r canlynol:

- gwerthu neu gyflenwi alcohol
- darparu adloniant wedi'i reoleiddio
- gwerthu bwyd/diodydd poeth rhwng 11pm a 5am

Mae Cyngor Sir Penfro o'r farn ei bod yn fwy priodol ac yn rhatach i fusnesau masnachol ddibynnu ar drwydded mangre gydag amodau trwydded ynghlwm i awdurdodi eu gweithrediad o ddydd i ddydd yn hytrach na dibynnu ar ddefnyddio hysbysiadau digwyddiadau dros dro. Mae'r awdurdod yn cydnabod bod y system hysbysiadau digwyddiadau dros dro yn fecanwaith defnyddiol i fusnesau 'brofi' hyfywedd gweithrediadau newydd neu newid gweithrediadau cyn gwneud cais i gael neu amrywio trwydded mangre.

Fodd bynnag, lle mae defnydd dro ar ôl tro o hysbysiadau digwyddiadau dros dro yn arwain at ddigwyddiadau o droseddu ac anhrefn, sŵn neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, mae'n debygol y bydd unrhyw hysbysiadau digwyddiadau dros dro a gyflwynir yn denu gwrthwynebiadau gan yr heddlu neu Iechyd yr Amgylchedd.

Yn gyffredinol, ystyrir bod hysbysiadau digwyddiadau dros dro yn ddull llai llym a ddefnyddir i awdurdodi digwyddiadau bach ac achlysurol. Mae'r awdurdod yn derbyn tua 500 o hysbysiadau digwyddiadau dros dro mewn blwyddyn, ac mae'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau yn mynd rhagddynt heb broblem.

21.2 O bryd i'w gilydd, a lle ystyrir ei fod yn gymesur ac yn briodol, gall yr awdurdod ei gwneud yn ofynnol i drefnydd digwyddiad y cyflwynwyd hysbysiad digwyddiad dros dro ar ei gyfer ymgysylltu â Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Sir Benfro. Disgwylir y bydd trefnydd y digwyddiad yn cydweithredu ac yn darparu manylion gweithredol pellach, a all gynnwys cynllun rheoli digwyddiadau ar gais, a hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfod a gynhelir gan Grŵp Diogelwch Digwyddiadau Sir Benfro pan ystyrir bod angen. Am ragor o wybodaeth

ynghylch digwyddiadau, gweler adran 23.

21.3 Gall yr heddlu neu swyddogion llygredd y cyngor ymyrryd i gyfyngu ar y digwyddiad neu atal y digwyddiad rhag digwydd. Gallant gytuno ar addasiad i'r hysbysiad digwyddiad dros dro yn uniongyrchol gyda defnyddiwr yr hysbysiad. Fel arall, gellir rhoi cyfnod o dri diwrnod gwaith o'r adeg y rhoddir yr hysbysiad iddynt i wrthwynebu iddo ar sail unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu. Wrth roi hysbysiad digwyddiad dros dro, dylai defnyddiwr y fangre ystyried hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu.

21.4 Mae dau fath o hysbysiad digwyddiad dros dro, sef hysbysiad digwyddiad dros dro safonol a hysbysiad digwyddiad dros dro hwyr. Rhoddir hysbysiad safonol o leiaf deg diwrnod gwaith cyn y digwyddiad y mae'n ymwneud ag ef a rhoddir hysbysiad hwyr pan fydd llai na naw diwrnod gwaith cyn y digwyddiad, a dim hwyrach na phum diwrnod gwaith. Nid yw'r cyfnod yn cynnwys y diwrnod y mae'r hysbysiad yn dod i law a diwrnod cyntaf y digwyddiad. Ni chyfrifir gwyliau banc fel diwrnodau gwaith.

21.6 Os ceir hysbysiad gwrthwynebiad mewn perthynas â hysbysiad digwyddiad dros dro safonol, rhaid i'r awdurdod trwyddedu gynnal gwrandawiad i ystyried y gwrthwynebiad, oni bai fod pob parti yn cytuno nad oes angen gwrandawiad.

21.7 Os ceir hysbysiad gwrthwynebiad mewn perthynas â hysbysiad digwyddiad dros dro hwyr, ni fydd yr hysbysiad yn ddilys ac ni chaniateir i'r digwyddiad fynd yn ei flaen gan nad oes lle i gynnal gwrandawiad nac i unrhyw amodau trwydded presennol gael eu cymhwyso i'r hysbysiad.

21.8 Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn gosod nifer o gyfyngiadau ar ddefnyddio hysbysiadau digwyddiad dros dro. Cynghorir y rhai sy'n rhoi hysbysiadau i gyfeirio at https://www.gov.uk/find-licences/temporary-events-notice am y terfynau cyfredol.

## 22. Gweithgareddau trwyddedadwy

22.1 **Gwerthu a chyflenwi alcohol**

Rhaid i fangreoedd trwyddedig sydd wedi'u hawdurdodi i werthu a/neu gyflenwi alcohol o dan y Ddeddf ystyried eu cyfrifoldebau o ran pwy maen nhw'n cyflenwi diodydd alcoholaidd iddynt, yn benodol:

- Personau dan 18 oed
- Personau sy'n prynu alcohol i'w rhoi i bersonau o dan 18 oed
- Personau sy'n feddw

22.2 Mae'r awdurdod trwyddedu yn annog yn weithredol y dylai gwerthu neu gyflenwi alcohol ddod i ben o leiaf 30 munud cyn amser cau'r fangre. Mae hyn yn darparu cyfnod 'ymdawelu' addas ac yn rhoi cyfle i gwsmeriaid wasgaru'n arafach.

22.3 Mae'r cyngor yn argymell bod gan unrhyw fangre drwyddedig sydd wedi'i hawdurdodi i werthu neu gyflenwi alcohol bolisi sy'n nodi sut mae'r gwerthiant neu'r cyflenwad yn cael ei reoli a rhaid iddo gynnwys gofynion hyfforddi staff. Dylid cadw cofnodion o'r holl hyfforddiant a ddarperir ac unrhyw ddigwyddiadau, e.e. gwrthod gwerthu a rhesymau.

22.4 Rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi sylw dyladwy i werthiannau alcohol a wneir o bell, drwy ddulliau symudol, y rhyngrwyd, neu drwy werthiannau danfon eraill. Mae'r awdurdod yn cydnabod, er bod gwasanaethau dosbarthu ar gyfer gwerthu alcohol yn rhan o fodelau busnes rhai ymgeiswyr / deiliaid trwydded, ei fod hefyd yn cydnabod y gall y gweithgaredd hwn achosi i bobl ifanc gael mynediad at alcohol ac felly'n cwestiynu a yw'n amddiffyn plant a phobl ifanc yn ddigonol rhag niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

22.5 Byddai deiliaid trwyddedau ac ymgeiswyr cyfrifol yn awgrymu amserlenni gweithredu cadarn i ddangos bod amcanion trwyddedu yn cael eu hyrwyddo. Argymhellir bod ymgeiswyr newydd a'r rhai sydd â mangreoedd presennol sy'n bwriadu ehangu i'r maes hwn yn ceisio cyngor gan yr awdurdod trwyddedu neu'r heddlu gan y gallai fod yn briodol i ddarpariaethau gael eu cynnwys yn yr amserlen weithredu ar gyfer gwirio oedran a chyfyngu ar amseroedd dosbarthu a meintiau.

22.6 **Lluniaeth hwyr y nos**

Cyflenwi 'bwyd poeth neu ddiodydd poeth' rhwng 11pm a 5am i'r cyhoedd i'w fwyta neu eu hyfed ar y fangre neu oddi arni

- **Nid** yw cyflenwi diodydd poeth trwy ddefnyddio peiriant gwerthu yn weithgaredd trwyddedadwy ac mae wedi'i eithrio o dan Ddeddf 2003
- **Nid** yw siopau ac archfarchnadoedd sy'n gwerthu bwyd a diodydd oer yn unig, boed yn fwyd a diodydd i'w fwyta neu eu hyfed ar unwaith ai peidio, o 11pm ymlaen yn drwyddedadwy

22.7 **Adloniant wedi'i reoleiddio**

Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2003 yn nodi pa weithgareddau a ystyrir yn ddarpariaeth adloniant wedi'i reoleiddio a phryd y maent yn drwyddedadwy, a'r gweithgareddau hynny nad ydynt ac felly wedi'u heithrio o'r gyfundrefn adloniant wedi'i reoleiddio.(Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i adolygu canllawiau adran 182 y Swyddfa Gartref o Ddeddf Trwyddedu 2003 ynghylch adloniant wedi'i reoleiddio.)

Dyma'r disgrifiadau o weithgareddau adloniant y gellir eu trwyddedu o dan Ddeddf 2003:

- Perfformiad o ddrama
- Dangos ffilm

- Digwyddiad chwaraeon dan do
- Adloniant bocsio neu reslo
- Perfformiad o gerddoriaeth fyw
- Chwarae unrhyw gerddoriaeth sydd wedi'i recordio
- Perfformiad o ddawns
- Adloniant o ddisgrifiad tebyg i berfformiad o gerddoriaeth fyw, unrhyw chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio, neu berfformiad o ddawns

Er mwyn bod yn drwyddedadwy, mae angen darparu un neu fwy o'r gweithgareddau hyn at ddiben (o leiaf yn rhannol) diddanu cynulleidfa, rhaid iddynt gael eu cynnal ar fangre sydd ar gael at ddiben galluogi'r gweithgaredd hwnnw, a rhaid iddynt hefyd naill ai:

- Digwydd ym mhresenoldeb cynulleidfa gyhoeddus, neu
- Pan fo'r gweithgaredd hwnnw'n digwydd yn breifat, bod yn destun tâl a godir gyda'r bwriad o wneud elw

Mae amgylchiadau pan fo'r gweithgareddau uchod wedi'u heithrio rhag gofynion trwyddedu. Bydd hyn yn dibynnu ar y canlynol:

- yr oriau y darperir yr adloniant
- maint y gynulleidfa
- y math o fangre lle maent yn cael eu cynnal

Mae manylion yr eithriadau hyn i'w gweld yn Neddf Trwyddedu 2003. Yn ogystal, mae newidiadau sylweddol i gwmpas adloniant wedi'i reoleiddio wedi'u gwneud gan Ddeddf Cerddoriaeth Fyw 2012, Gorchymyn Disgrifiad o Adloniant (Diwygio) 2013 a Deddf Dadreoleiddio 2015; i gael y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch a yw adloniant yn cael ei ystyried yn rheoleiddiedig o dan y Ddeddf ai peidio, edrychwch ar wefan Llywodraeth y DU: https://www.gov.uk/guidance/entertainment-licensing-changes-under-the-live-music-act

**Amodau trwydded ac adloniant esempt**

Mae unrhyw amodau trwydded presennol (neu amodau a ychwanegwyd wrth benderfynu ar gais am drwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb sy'n ymwneud ag adloniant wedi'i reoleiddio) wedi'u hatal yn ystod y cyfnod y caiff yr adloniant ei ddadreoleiddio.

Pan nad yw adloniant rheoleiddiedig ar fangre drwyddedig berthnasol yn drwyddedadwy, mae'n parhau i fod yn bosibl i unrhyw un wneud cais am adolygiad o drwydded neu dystysgrif, os oes sail briodol i wneud hynny.

> Wrth adolygu trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb, mae adran 177A(3) o Ddeddf 2003 yn caniatáu i awdurdod trwyddedu godi'r ataliad a rhoi effaith newydd i amod presennol sy'n ymwneud â cherddoriaeth. Yn yr un modd, o dan adran 177A(4), gall awdurdod trwyddedu ychwanegu amod sy'n ymwneud â cherddoriaeth fel pe bai cerddoriaeth yn adloniant wedi'i reoleiddio, ac fel pe bai'r drwydded mangre honno neu'r dystysgrif mangre clwb wedi trwyddedu'r gerddoriaeth. Yn y ddau achos, dylai'r amod gynnwys datganiad nad yw adran 177A yn berthnasol i'r amod.

22.8 **Adloniant rhywiol**

Mae dawns sydd o natur ddigon rhywiol yn parhau i gael ei rheoleiddio. Nid yw perfformiadau dawns sy'n "adloniant perthnasol" o fewn ystyr Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ("Deddf 1982") wedi'u dadreoleiddio, waeth beth fo maint y gynulleidfa neu amser y dydd. Diffinnir "adloniant perthnasol" yn Neddf 1982 fel perfformiad byw neu arddangosfa fyw o noethni y gellir tybio, gan anwybyddu elw ariannol, ei fod yn cael ei ddarparu'n unig neu'n bennaf at ddiben ysgogi unrhyw aelod o'r gynulleidfa'n rhywiol.

Ym mron pob achos pan fo perfformiad dawns o bosibl yn drwyddedadwy fel darpariaeth adloniant perthnasol (o dan Ddeddf 1982) ac adloniant wedi'i reoleiddio (o dan Ddeddf 2003), mae Deddf 1982 yn datgymhwyso'r drefn trwyddedu adloniant yn Neddf 2003 o blaid ei threfn llymach ar gyfer rheoli sefydliadau rhyw. Fodd bynnag, bydd angen awdurdodiad o dan Ddeddf 2003 yn hytrach na Deddf 1982 o hyd pan fydd y canlynol yn wir:

- Nid yw'r fangre wedi'i thrwyddedu fel lleoliad adloniant rhyw o dan Ddeddf 1982
- Darparwyd adloniant perthnasol yn y fangre honno ar ddim mwy nag 11 achlysur mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, heb yr un o'r achlysuron hynny
- yn para'n hirach na 24 awr neu'n digwydd o fewn mis i unrhyw achlysur o'r fath

22.9 **Cerddoriaeth achlysurol**

Nid yw perfformio cerddoriaeth fyw na chwarae cerddoriaeth wedi'i recordio yn adloniant wedi'i reoleiddio o dan Ddeddf 2003 os yw'n 'atodol' i weithgaredd arall "nad yw ei hun yn ddisgrifiad o adloniant sy'n dod o fewn paragraff 2" o Atodlen 1 i Ddeddf 2003.

Gweler y paragraff perthnasol yng nghanllawiau'r llywodraeth am fwy o fanylion.

## 23. Digwyddiadau a gwyliau

23.1 Mae Sir Benfro yn cynnal amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a gwyliau drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys gwyliau bwyd, gwyliau cerddoriaeth a digwyddiadau chwaraeon, a bydd llawer ohonynt yn cynnwys gweithgareddau trwyddedadwy. Mae gwefan Croeso Sir Benfro yn cynnal calendr digwyddiadau.

23.2 Efallai y bydd gofyn i drefnwyr digwyddiadau mwy sy'n darparu gweithgareddau trwyddedadwy lle bydd 500 neu fwy o unigolion yn bresennol wneud cais am drwyddedau mangre. Mae'r awdurdod trwyddedu yn argymell yn gryf bod trefnwyr digwyddiadau yn cysylltu â'r adran trwyddedu yn gynnar yng nghyfnodau cynllunio'r digwyddiad a hefyd yn cyfeirio at becyn cymorth digwyddiadau'r awdurdod.

Gall torfeydd llawer mwy gael eu denu i ddigwyddiadau ar raddfa fawr a gall y risg i ddiogelwch y cyhoedd ac ar gyfer trosedd ac anhrefn, yn ogystal â niwsans cyhoeddus, fod

yn sylweddol.
Cyfrifoldeb trefnydd y digwyddiad / ymgeisydd yw rhoi rhybudd cynnar i'r awdurdod trwyddedu a phob ymgynghorai statudol arall ynghylch digwyddiadau mawr am ddigwyddiadau o'r fath er mwyn galluogi trafodaeth am amserlenni gweithredu cyn cyflwyno cais ffurfiol. Disgwylir y bydd yr ymgeisydd yn ystyried sut y bydd ei ddigwyddiad yn cael ei gynnal yn ddiogel a sut y bydd yn effeithio ar yr ardal gyfagos.

23.3 Ar gyfer digwyddiadau mawr, bydd Grŵp Cynghori Diogelwch Digwyddiadau Sir Benfro yn disgwyl i gynllun rheoli digwyddiad gael ei gyflwyno yn ogystal â chais am drwydded mangre (lle bo angen). Dylai'r cynllun rheoli digwyddiad fod yn ddogfen weithio sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n amlinellu sut y bydd y fangre'n cael ei gweithredu yn ystod y digwyddiad.

23.4 Mae Grŵp Cynghori Diogelwch Digwyddiadau Sir Benfro yn fforwm amlasiantaeth ac mae'n cynnwys asiantaethau mewnol ac allanol sy'n anelu at gyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn i adolygu'r mesurau diogelwch sydd ar waith ar gyfer digwyddiadau ledled y sir. Bydd y grŵp yn ystyried digonolrwydd y cynllun rheoli digwyddiad ac yn cynnig cyngor i'r ymgeisydd ynghylch disgwyliadau cynnwys yr amserlen weithredu, ac mae hefyd yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd roi trosolwg o'r digwyddiad wyneb yn wyneb a'r ffordd y caiff ei reoli. Mae rhagor o wybodaeth am broses Grŵp Cynghori Diogelwch Digwyddiadau Sir Benfro ar gael ar wefan y cyngor https://www.sir-benfro.gov.uk/esag-cym/proses-esag

23.5 Mae'r tabl canlynol wedi'i gynnwys fel cyfnod gofynnol awgrymedig ar gyfer cyflwyno cais cyflawn cyn
digwyddiad, yn dilyn ymgynghoriadau
â'r awdurdodau cyfrifol.

| **Uchafswm nifer y mynychwyr ar unrhyw adeg** | **Y cyfnod hysbysu byrraf** |
|---|---|
| 500 i 999 | Dim llai na dau fis |
| 1,000 i 2,999 | Dim llai na thri mis |
| 3,000 i 4,999 | Dim llai na phedwar mis |
| 5,000 i 19,999 | Dim llai na phum mis |
| 20,000 i 49,999 | Dim llai na chwe mis |
| Mwy na 50,000 | Dim llai na saith mis |

Anogir trefnwyr digwyddiadau mawr i gyfeirio at ddogfen ganllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 'Y Canllaw Diogelwch Digwyddiadau', a elwir hefyd yn 'y canllaw porffor'. Yn ogystal, dylai deiliaid trwyddedau mangre ystyried y cod ymarfer ar gyfer mangreoedd trwyddedig a gynhyrchwyd gan Heddlu Dyfed-Powys.

## 24. Gweinyddiaeth

Mae Tîm Trwyddedu'r cyngor yn gweinyddu pob agwedd ar y Ddeddf, gan gynnwys ceisiadau, sylwadau, a cheisiadau am gymorth a chyngor. Mae gwefan y cyngor yn cynnwys gwybodaeth fanwl am yr holl wasanaethau y mae'n eu cynnig i ddeiliaid trwyddedau, ymgeiswyr ac achwynwyr, ac wrth ymateb i bob ymholiad arall. Mae modd lawrlwytho gwybodaeth a ffurflenni cais o'n gwefan. Gellir cysylltu â'r Tîm Trwyddedu drwy unrhyw un o'r dulliau canlynol:

Tîm Trwyddedu Cyngor Sir Penfro
Diogelu'r Cyhoedd
Neuadd y Sir, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 1TP

Rhif ffôn: 01437 764551
E-bost: licensing@pembrokeshire.gov.uk Gwefan: www.sir-benfro.gov.uk/trwyddedu

## 25. Gweithdrefnau ymgeisio

25.1 Argymhellir yn gryf i ddarpar ymgeiswyr geisio cyngor cyn ymgeisio. Rhoddir cyngor ar y broses ymgeisio, ond ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn cwblhau'r ffurflen gais ar ran ymgeisydd ar unrhyw adeg. Mae gwefan y cyngor yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau y mae'n eu cynnig i ddeiliaid trwyddedau, ymgeiswyr ac achwynwyr, ac i bob ymholiad trwyddedu arall, yma: https://www.sir-benfro.gov.uk/trwyddedu

25.2 Mae ceisiadau a wneir ar ffurf electronig yn cael eu ffafrio ac ar hyn o bryd cânt eu hwyluso drwy e-bost. Gellir anfon ffurflenni cais ar ffurf neges e-bost i licensing@pembrokeshire.gov.uk Bydd ceisiadau a geir drwy e-bost yn cael eu hanfon at yr awdurdodau cyfrifol gan yr awdurdod trwyddedu. Os bydd yr ymgeisydd yn cyflwyno ei gais yn ysgrifenedig, bydd yr ymgeisydd yn parhau i fod yn gyfrifol am anfon copi ohono at yr awdurdodau cyfrifol.

Ym mhob achos, yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am hysbysebu ei gais, lle bo'n berthnasol, yn y ffordd ragnodedig.

25.3 Mae manylion y ceisiadau ar gael ar wefan Cyngor Sir Penfro yma: https://www.sir-benfro.gov.uk/trwyddedu

25.4 Rhaid gwneud ceisiadau am bob trwydded ac awdurdodiad sydd ar gael o dan Ddeddf 2003 ar y ffurflen berthnasol a ragnodir o dan reoliadau eilaidd. Ni fydd ceisiadau'n cael eu prosesu nes bod y ffurflen wedi'i chwblhau'n llawn a'i chael, ynghyd â'r ffi/ffïoedd perthnasol a'r holl wybodaeth ofynnol arall, gan yr awdurdod trwyddedu a'r awdurdodau cyfrifol perthnasol.

25.5 Pan wneir ceisiadau electronig, ystyrir bod y cais wedi'i 'roi' pan fydd yr ymgeisydd wedi cyflwyno ffurflen gais gyflawn a thalu'r ffi.

25.6 Yr awdurdodau cyfrifol yw:

| | |
|---|---|
| Awdurdod trwyddedu | Y Tîm Trwyddedu<br>Cyngor Sir Penfro<br>Neuadd y Sir<br>Hwlffordd<br>Sir Benfro, SA61 1TP<br>Rhif ffôn: 01437 764551<br>licensing@pembrokeshire.gov.uk |

| | |
|---|---|
| Awdurdod<br>Iechyd yr<br>Amgylchedd | Tîm Rheoli Llygredd Is-adran Diogelu'r<br>Cyhoedd<br>Neuadd y Sir, Cyngor Sir Penfro<br>Hwlffordd, Sir Benfro, SA61<br>1TP<br>pollution.control@pembrokeshire.gov.uk |
| Iechyd a diogelwch | Yr awdurdod iechyd a diogelwch perthnasol, sef naill ai: Tîm Iechyd a Diogelwch<br>Is-adran Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir<br>Hwlffordd, Sir Benfro, SA61<br>1TP<br>healthsa@pembrokeshire.gov.uk<br><br>neu ar gyfer mangreoedd sy'n eiddo i'r cyngor ac sy'n destun gorfodi gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn unig:<br><br>Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch Adeiladau<br>Llywodraeth Cymru<br>Cyfnod 1, Tŷ Glas, Llanisien<br>Caerdydd, CF14 5SH<br>https://www.hse.gov.uk/contact/ |
| Safonau masnach | Tîm Safonau Masnach, Is-adran Diogelu'r<br>Cyhoedd, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir<br>Hwlffordd, Sir Benfro, SA61<br>1TP<br>tradingstandards@pembrokeshire.gov.uk |
| Awdurdod<br>amddiffyn plant | Cydlynydd Amddiffyn Plant, Cyfarwyddiaeth Gofal<br>Cymdeithasol a Thai, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir<br>Hwlffordd, Sir Benfro, SA61<br>1TP<br>enquires@pembrokeshire.gov.uk |
| Awdurdod cynllunio | Yr awdurdod cynllunio perthnasol, sef naill ai<br>Y Tîm Cynllunio<br>Neuadd y Sir, Cyngor Sir Penfro<br>Hwlffordd |

| | |
|---|---|
| | Sir Benfro, SA61 1TP<br><br>planning.support.team@pembrokeshire.gov.uk neu<br><br>Swyddog Rheoli Datblygu, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Parc Llanion<br>Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6DY<br>dc@pembrokeshirecoast.org.uk |
| Heddlu Dyfed-Powys | Prif Swyddog yr Heddlu, Heddlu Dyfed-Powys<br>Pencadlys Heddlu Rhanbarthol, Merlin's Hill<br>Hwlffordd, Sir Benfro, SA61<br>1PT<br>PembsLicensing@dyfed-powys.pnn.police.uk |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | Cadlywydd y Sir<br>Pencadlys Rhanbarthol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru<br>Merlin's Hill, Hwlffordd, Sir Benfro,<br>SA61 1PG<br>bfspembroke@mawwfire.gov.uk |
| Iechyd y cyhoedd | Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd<br>Swyddfeydd Corfforaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br>Adeilad Ystwyth, Parc Dewi Sant, Caerfyrddin, SA31 3BB |
| Swyddfa Gartref (gorfodi mewnfudo) | Tîm Trwyddedu Alcohol y Swyddfa Gartref, Lunar House<br>40 Wellesley Road<br>Croydon<br>CR9 2BY IE.licensing.applications@homeoffice.gov.uk |
| Llongau yn unig | Rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno defnyddio llongau ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy hefyd anfon copïau o'r cais i'r canlynol:<br><br>Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Gorsewood Drive<br>Hakin<br>Aberdaugleddau, Sir Benfro, SA73<br>3HB |

25.7 Y camau ar gyfer ystyried cais am drwydded, amrywiad trwydded, a thystysgrif mangre clwb yw:

a) Os na wneir unrhyw sylwadau perthnasol i gais, rhaid i'r awdurdod trwyddedu roi'r drwydded yn amodol ar amodau sy'n gyson â'r amserlen weithredu sydd ynghlwm wrth y cais ynghyd â'r amodau gorfodol cymwys yn unig.

b) Os gwneir sylwadau perthnasol, rhaid i'r awdurdod trwyddedu gynnal gwrandawiad o'r is-bwyllgor trwyddedu i'w hystyried, oni bai fod yr ymgeisydd ac unrhyw unigolyn sydd wedi gwneud sylwadau wedi cytuno nad oes angen y gwrandawiad.

c) Rhaid trefnu gwrandawiad is-bwyllgor trwyddedu'r awdurdod o fewn ugain diwrnod gwaith i'r dyddiad cyflwyno sylwadau terfynol.

d) Bydd yr is-bwyllgor trwyddedu yn ystyried ac yn penderfynu ar y cais am drwydded mangre, gan gymryd y camau y mae'n eu hystyried yn briodol i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu, a all fod yn un o'r canlynol:

- Rhoi'r drwydded mangre yn amodol ar yr amodau sy'n gyson â'r amserlen weithredu sy'n cyd-fynd â'r cais yn unig
- Rhoi'r drwydded mangre yn amodol ar yr amodau gwahanol mewn perthynas â gwahanol rannau o'r fangre neu wahanol weithgareddau trwyddedadwy
- Eithrio o gwmpas y drwydded unrhyw un o'r gweithgareddau trwyddedadwy y mae'r cais yn ymwneud â nhw
- Gwrthod nodi unigolyn fel goruchwyliwr y fangre mewn perthynas â'r drwydded
- Gwrthod y cais

25.8 Amodau mewn perthynas â thrwydded:

- Rhaid iddynt fod yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu
- Rhaid iddynt fod yn fanwl gywir ac yn orfodadwy
- Rhaid iddynt fod yn ddiamwys ac yn glir yn yr hyn y maent yn bwriadu ei gyflawni
- Ni ddylent ddyblygu gofynion statudol eraill, na dyletswyddau neu gyfrifoldebau eraill, a osodir ar y cyflogwr gan ddeddfwriaeth arall
- Rhaid eu teilwra i fath, lleoliad a nodweddion unigol y fangre a'r digwyddiadau dan sylw
- Ni ddylent fod wedi'u safoni a gall peidio â dangos eu bod yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu mewn achos unigol fod yn anghyfreithlon
- Ni ddylent gyflawni troseddau a nodir yn Neddf 2003 na deddfwriaeth arall
- Dylent fod yn gymesur ac yn gyfiawn ac yn gallu cael eu bodloni
- Ni allant geisio rheoli ymddygiad cwsmeriaid unwaith y byddant y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol deiliad y drwydded a'i staff, ond gallant effeithio ar ymddygiad cwsmeriaid yng nghyffiniau uniongyrchol y fangre neu wrth iddynt fynd i mewn i'r fangre neu ei gadael
- Dylent gael eu hysgrifennu mewn fformat rhagnodol

25.9 Rhaid i unigolion sy'n gwneud cais am drwydded fangre neu drwydded bersonol fod â hawl i weithio yn y DU. Fe wnaeth Ddeddf Mewnfudo 2016 ddiwygio Deddf Trwyddedu 2003, gan ddod i rym o 6 Ebrill 2017 ymlaen, fel bod rhaid gwrthod cais a wneir ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw gan unigolyn nad oes ganddo hawl i weithio yn y DU. Ni ddylid rhoi trwyddedau i unigolion sy'n bresennol yn anghyfreithlon yn y DU nad oes ganddynt ganiatâd i weithio, neu sydd â chaniatâd i weithio ond sy'n ddarostyngedig i amod sy'n eu gwahardd rhag gwneud gwaith sy'n ymwneud â chynnal gweithgaredd trwyddedadwy. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, rhaid i'r awdurdod fod yn fodlon bod gan ymgeisydd yr hawl i weithio yn y DU a dangos bod gan yr ymgeisydd ganiatâd i fod yn y DU a'i fod yn cael ymgymryd â gwaith mewn gweithgaredd trwyddedadwy. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unigolion sy'n gwneud cais am drwyddedau mangre. Diben hyn yw atal gweithio anghyfreithlon yn y DU.

25.10 Mae unigolyn hefyd wedi'i anghymhwyso rhag dal trwydded os yw'n ddarostyngedig i amod ar ei ganiatâd i fod yn y DU sy'n ei atal rhag dal trwydded – er enghraifft, os yw'n ddarostyngedig i gyfyngiad mewnfudo nad yw'n caniatáu iddo weithio.

## 26. Amserlen weithredu

26.1 Dylai pob cais newydd ac amrywio gynnwys 'amserlen weithredu' sy'n amlinellu sut y bydd y fangre'n cael ei gweithredu. Dylai hon gynnwys manylion sut y bydd yr ymgeisydd yn hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu ac yn lleihau unrhyw effaith negyddol bosibl o weithrediad y busnes ar y gymuned leol, yn dibynnu ar y math o fangre, y lleoliad, a'r proffil cwsmeriaid. Bydd y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr amserlen weithredu yn ffurfio prif gorff yr amodau i'w cymhwyso i'r drwydded, ynghyd ag unrhyw amodau gorfodol cymwys, unrhyw amodau y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdodau cyfrifol yn ystod y broses ymgeisio, ac unrhyw amodau a osodwyd gan is-bwyllgor trwyddedu pan wnaed sylwadau.

26.2 Wrth gwblhau amserlen weithredu, disgwylir i ymgeiswyr ystyried y datganiad polisi trwyddedu hwn a dangos gwybodaeth addas am eu hardal leol wrth ddisgrifio'r camau y maent yn bwriadu eu cymryd er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

26.3 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi cyngor cyffredinol ynghylch drafftio amserlenni gweithredu, ac argymhellir yn gryf i ymgeiswyr drafod eu hamserlenni gweithredu â'r awdurdod trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol eraill cyn eu cyflwyno. Gall ymgeiswyr gyfeirio at y gronfa o amodau am enghreifftiau o fesurau rheoli wrth baratoi amserlenni gweithredu ac wrth weithredu fangre drwyddedig yn barhaus.Nid yw'r gronfa amodau yn gynhwysfawr ac ni ddylid ei hystyried mewn unrhyw ffordd yn amodau safonol nac yn ofynion gorfodol.

26.4 Bydd y cymhlethdod a'r manylder sydd eu hangen yn yr amserlen weithredu yn dibynnu ar natur a defnydd y fangre dan sylw. Ar gyfer mangre fel tafarn pan na ddarperir adloniant wedi'i reoleiddio, dim ond dogfen gymharol syml y bydd ei hangen efallai. Fodd bynnag, ar gyfer amserlen weithredu sy'n cyd-fynd â chais am leoliad neu ddigwyddiad adloniant mawr, disgwylir y bydd materion fel diogelwch y cyhoedd ac atal trosedd ac anhrefn yn cael eu trafod yn fanwl.

26.5 Rhaid nodi’r amserlen weithredu ar y ffurflen ragnodedig a chynnwys datganiad o’r canlynol:

- Manylion llawn y gweithgareddau trwyddedadwy a fydd yn cael eu cynnal yn y fangre a’r defnydd arfaethedig ohoni
- Yr amseroedd y bydd y gweithgareddau trwyddedadwy yn digwydd
- Unrhyw adegau eraill pan fydd y fangre ar agor i’r cyhoedd
- Pan fo’r drwydded yn ofynnol am gyfnod cyfyngedig yn unig, y cyfnod hwnnw
- Pan fo’r gweithgareddau trwyddedadwy yn cynnwys cyflenwi alcohol, enw a chyfeiriad yr unigolyn i’w bennu fel goruchwyliwr dynodedig y fangre
- A fydd alcohol yn cael ei gyflenwi i’w yfed ar y fangre neu oddi arni, neu’r ddau
- Y camau y mae’r ymgeisydd yn eu cynnig i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu

26.6 Ar gyfer rhai mangreoedd, mae’n bosibl na fydd unrhyw fesurau’n briodol i hyrwyddo un neu fwy o’r amcanion trwyddedu – er enghraifft, oherwydd eu bod wedi’u cwmpasu’n ddigonol gan ddeddfwriaeth bresennol arall. Fodd bynnag, mae’n bwysig bod pob amserlen weithredu:

- yn fanwl gywir a gorfodadwy
- yn ddiamwys
- yn peidio â dyblygu darpariaethau statudol eraill
- yn glir ynghylch yr hyn y mae’n bwriadu ei gyflawni
- yn briodol ac yn gymesur ac yn cynnwys cynigion y gellir eu cyfiawnhau

## 27. Amodau

27.1 Mae’r Ddeddf, fel y’i diwygiwyd, yn gosod nifer o amodau gorfodol ar drwyddedau. Mae gan y cyngor y pŵer i osod amodau ychwanegol os ystyrir eu bod yn briodol ar gyfer hyrwyddo’r amcanion trwyddedu.

27.2 Bydd amodau sydd ynghlwm wrth drwyddedau neu dystysgrifau yn cael eu teilwra i arddull a nodweddion unigol y fangre, y gweithgareddau, a/neu’r digwyddiadau penodol a ddarperir yn y fangre. Nid yw’r polisi yn darparu ar gyfer unrhyw amodau safonol, cyffredinol na hollgynhwysol, ac ni fydd yn gosod gofynion anghymesur a beichus.

27.3 Gall ymgeiswyr gynnig amodau yn yr atodlen weithredu fel rhan o’u cais; gall y cyngor ddileu neu aileirio unrhyw un o’r amodau hyn os ystyrir eu bod yn aneglur, yn amwys neu’n anorfodadwy, gyda chytundeb yr ymgeisydd. Bydd hyn yn sicrhau bod pob parti yn deall yn llawn eu cyfrifoldebau i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu.

27.4 Mae’r cyngor yn cydnabod mai dim ond pan geir sylwadau perthnasol a’i fod yn cael ei ystyried yn briodol y gall osod amodau. Hyrwyddo’r amcanion trwyddedu. Pan fydd

awdurdod cyfrifol yn rhoi tystiolaeth ei bod yn briodol gosod amodau penodol, bydd y cais yn cael ei ystyried gan y cyngor, a all awgrymu geiriad yr amod i sicrhau ei fod yn glir, yn berthnasol ac yn orfodadwy.

27.5 Wrth osod amodau, bydd y cyngor hefyd yn ymwybodol o'r angen i osgoi mesurau a allai atal cerddoriaeth fyw, dawnsio neu theatr drwy osod amodau o natur sylweddol nad ydynt yn gymesur â'r risgiau.

## 28. Ceisiadau pan geir sylwadau

28.1 Pan wneir cais i roi, amrywio neu adolygu trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb, gall awdurdodau cyfrifol neu bersonau eraill wneud sylwadau am y cais. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod trwyddedu fel arfer yn rhoi mwy o bwyslais i sylwadau a wneir gan unigolion a all ddangos y byddai effaith arnynt yn uniongyrchol gan weithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cynnal yn y fangre dan sylw.

28.2 Rhaid cyflwyno sylwadau i'r awdurdod trwyddedu o fewn y cyfnod statudol o 28 diwrnod sy'n dechrau ar y diwrnod ar ôl i'r awdurdod trwyddedu gael y cais perthnasol. Rhaid gwneud sylwadau yn ysgrifenedig.

28.3 Gellir gwneud sylwadau naill ai i gefnogi cais neu i fynegi gwrthwynebiadau i ganiatáu cais. Fodd bynnag, dim ond sylwadau perthnasol y gall yr awdurdod trwyddedu eu derbyn. Mae sylw yn berthnasol os yw'n ymwneud ag effaith debygol rhoi'r drwydded ar hyrwyddo o leiaf un o'r amcanion trwyddedu.

28.4 Enghraifft o sylw na fyddai'n berthnasol fyddai sylw gan berson busnes lleol ynglŷn â'r effaith negyddol y byddai cystadleuaeth gan fangre drwyddedig newydd yn ei chael ar ei fusnes ei hun. Ar y llaw arall, byddai sylwadau gan berson busnes sy'n nodi y byddai niwsans a achosir gan fangre newydd yn atal cwsmeriaid rhag dod i mewn i'r ardal leol, a bod y camau a gynigiwyd gan yr ymgeisydd i atal y niwsans hwnnw yn annigonol, yn sylwadau perthnasol.

28.5 Hynny yw, dylai sylwadau ymwneud ag effaith gweithgareddau trwyddedadwy a gynhelir yn y fangre ar yr amcanion trwyddedu.

28.6 Er mwyn i sylwadau mewn perthynas ag amrywiadau fod yn berthnasol, dylent fod yn ymwneud â'r amrywiad yn unig.

28.7 Er bod yr awdurdod trwyddedu yn disgwyl i sylwadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth, nid oes gofyniad i awdurdod cyfrifol na pherson arall gynhyrchu hanes cofnodedig o broblemau mewn mangreoedd i gefnogi eu sylwadau, a chydnabyddir na fyddai hyn yn bosibl mewn gwirionedd ar gyfer mangreoedd newydd.

28.8 Mae awdurdodau cyfrifol yn grŵp o gyrff cyhoeddus y mae'n rhaid iddynt gael gwybod yn llawn am geisiadau, ac sydd â hawl i wneud sylwadau i'r awdurdod trwyddedu mewn perthynas â'r cais i roi, amrywio neu adolygu trwydded mangre neu dystysgrif mangre clwb. Darperir rhestr lawn o fanylion cyswllt yr awdurdodau cyfrifol ar wefan yr awdurdod trwyddedu ac yn adran 43.

28.9 Er y gall pob awdurdod cyfrifol wneud sylwadau ynghylch ceisiadau am drwyddedau a thystysgrifau mangre clwb a cheisiadau amrywiad llawn, cyfrifoldeb pob awdurdod cyfrifol yw penderfynu pryd mae ganddynt sail briodol i wneud hynny.

28.10 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod y gall pob awdurdod cyfrifol wneud sylwadau ynghylch unrhyw un o'r pedwar amcan trwyddedu. Fodd bynnag, byddai'r awdurdod trwyddedu fel arfer yn disgwyl i sylwadau ynghylch hyrwyddo amcanion trwyddedu unigol ddod gan yr awdurdod cyfrifol mwyaf perthnasol sydd ag arbenigedd yn y maes penodol hwnnw. Er enghraifft, byddai'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl i sylwadau ynghylch atal trosedd ac anhrefn gael eu gwneud yn bennaf gan yr heddlu, a sylwadau ynghylch atal niwsans cyhoeddus gan iechyd yr amgylchedd yn bennaf.

28.11 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod mai'r heddlu ddylai fod ei brif ffynhonnell gyngor ar faterion sy'n ymwneud â hyrwyddo amcan trwyddedu atal trosedd ac anhrefn, ond efallai y bydd hefyd yn gallu gwneud sylwadau perthnasol ynghylch yr amcanion trwyddedu eraill os oes ganddo dystiolaeth i gefnogi sylwadau o'r fath.

28.12 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn derbyn pob sylw rhesymol a chymesur a wneir gan yr heddlu oni bai fod ganddo dystiolaeth na fyddai gwneud hynny'n briodol ar gyfer hyrwyddo'r amcanion trwyddedu. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod trwyddedu yn dal i ddisgwyl i unrhyw sylwadau gan yr heddlu fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gallu gwrthsefyll craffu mewn gwrandawiad.

28.13 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod Gwasanaethau Amddiffyn Plant Cyngor Sir Penfro fel y corff sy'n gymwys i'w gynghori ar amcan trwyddedu amddiffyn plant rhag niwed.

28.14 Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod, er nad yw iechyd y cyhoedd yn amcan trwyddedu, y gall cyrff iechyd ddal gwybodaeth nad yw gan awdurdodau cyfrifol eraill, ond a fyddai'n cynorthwyo'r awdurdod trwyddedu i arfer ei swyddogaethau.

28.15 Er enghraifft, gall meddwdod arwain at ddamweiniau ac anafiadau oherwydd trais, gan arwain at unigolion yn mynd i adrannau brys a defnyddio gwasanaethau ambiwlans. Bydd rhai o'r digwyddiadau hyn yn cael eu hadrodd amdanynt i'r heddlu, ond ni fydd hynny'n wir am lawer o ddigwyddiadau. Gallai gwybodaeth o'r fath fod yn berthnasol i'r amcan diogelwch cyhoeddus ac mewn rhai achosion yr amcan trosedd ac anhrefn.

28.16 O ganlyniad i Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae'r awdurdod trwyddedu bellach hefyd yn awdurdod cyfrifol a gall felly wneud sylwadau os yw'n ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

28.17 Fodd bynnag, ni fydd yr awdurdod trwyddedu fel arfer yn gweithredu fel awdurdod cyfrifol ar ran partïon eraill (er enghraifft, trigolion lleol, cynghorwyr lleol neu grwpiau cymunedol), er bod achlysuron pan all yr awdurdod benderfynu gwneud hynny.

28.18 Gall partïon o'r fath wneud sylwadau perthnasol i'r awdurdod trwyddedu yn eu rhinwedd eu hunain, ac mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl iddynt wneud sylwadau eu hunain pan fyddant yn rhesymol abl i wneud hynny.

28.19 Mae'r awdurdod trwyddedu hefyd yn disgwyl y dylai awdurdodau cyfrifol eraill ymyrryd pan fydd sail yr ymyrraeth o fewn cylch gwaith yr awdurdod cyfrifol arall hwnnw. Mae gan bob awdurdod cyfrifol statws cyfartal o dan y Ddeddf a gallant weithredu'n annibynnol heb aros am sylwadau gan unrhyw awdurdod cyfrifol arall.

28.20 Mewn achosion pan fydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn gweithredu fel awdurdod cyfrifol mewn perthynas â'r un broses, bydd yr awdurdod trwyddedu yn sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu gwahanu o fewn yr awdurdod er mwyn sicrhau tegwch gweithdrefnol a dileu gwrthdaro buddiannau. Cyflawnir hyn drwy ddyrannu'r gwahanol gyfrifoldebau i wahanol swyddogion trwyddedu neu swyddogion eraill o fewn yr awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyfrifoldebau'n cael eu gwahanu'n briodol.

28.21 Gall unrhyw berson arall hefyd wneud sylwadau perthnasol ynghylch ceisiadau, waeth beth fo'u lleoliad daearyddol mewn perthynas â'r fangre berthnasol. Fodd bynnag, bydd yr awdurdod trwyddedu fel arfer yn rhoi mwy o bwyslais ar sylwadau a wneir gan unigolion a all ddangos y byddai effaith arnynt yn uniongyrchol gan weithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cynnal yn y fangre dan sylw.

28.22 Bydd yr awdurdod trwyddedu hefyd yn gwrthod fel rhai annilys unrhyw sylwadau gan bersonau eraill a ystyrir yn wacsaw neu'n flinderus neu os nad oes unrhyw un o'r amcanion trwyddedu yn cael sylw. Gellid ystyried bod sylw yn flinderus os yw'n ymddangos ei fod wedi'i fwriadu i achosi niwsans neu annifyrrwch, boed i gystadleuydd neu berson arall, heb achos rhesymol. Yn y bôn, mae sylwadau gwacsaw yn cael eu nodweddu gan ddiffyg difrifoldeb. Byddai sylwadau gwacsaw yn ymwneud â materion sydd, ar y mwyaf, yn fân ac na fyddai unrhyw gamau unioni yn gyfiawn nac yn gymesur mewn perthynas â nhw.

28.23 Fel arfer, swyddogion yr awdurdod trwyddedu fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch dilysrwydd sylwadau. Mewn achosion ffiniol, rhoddir mantais yr amheuaeth ynghylch unrhyw agwedd ar sylwadau i'r sawl sy'n gwneud y sylwadau hynny. Byddai'r gwrandawiad dilynol wedyn yn rhoi cyfle i'r person neu'r corff sy'n gwneud y sylw i'w egluro ac i ymhelaethu arno.

28.24 Bydd yr awdurdod trwyddedu yn derbyn deisebau, ond mae rhai ffactorau pwysig i'w hystyried cyn trefnu deiseb:

- Gofynnwn i drefnydd y ddeiseb nodi ei hun fel pwynt cyswllt canolog. Efallai y bydd angen i ni gysylltu er mwyn gwirio rhai materion; os na allwn wneud hyn, gallai annilysu'r ddeiseb.

- Dylai pob tudalen o'r ddeiseb gynnwys gwybodaeth ynghylch pwrpas y ddeiseb fel bod pawb yn gwybod beth maen nhw'n ei lofnodi.

- Rhaid darparu enwau llawn a chyfeiriadau.

- Rhaid rhoi gwybod i bob llofnodwr y bydd copi o'r ddeiseb yn cael ei gyflenwi i'r ymgeisydd a bydd copi wedi'i gynnwys ym mhapurau'r pwyllgor, felly bydd eu manylion personol yn dod yn wybodaeth gyhoeddus.

Efallai na fyddwn yn ysgrifennu at bob llofnodwr ar wahân, ond yn hytrach gallwn dybio y bydd y trefnydd yn rhoi gwybod i bob llofnodwr am ddyddiad y gwrandawiad a chanlyniad terfynol y cais. Disgwylir y bydd y trefnydd yn cynrychioli'r llofnodwyr yn y gwrandawiad ac yn siarad ar eu rhan. Wrth wneud penderfyniad, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried y ddeiseb yn briodol. Dylai'r rhai sy'n dymuno gwneud sylwadau werthfawrogi bod ansawdd y sylwadau a gawn yn ystyriaeth bwysig wrth wneud penderfyniad.

28.25 Gall unrhyw un sy'n cael ei dramgwyddo am fod ei sylwadau wedi'u gwrthod ar y naill sail neu'r llall gyflwyno cwyn drwy weithdrefn gwynion gorfforaethol yr awdurdod. Gall person hefyd herio penderfyniad o'r fath drwy adolygiad barnwrol.

28.26 Pan roddir hysbysiad o wrandawiad i ymgeisydd, mae'n ofynnol i'r awdurdod trwyddedu ddarparu copïau o'r sylwadau perthnasol a wnaed i'r ymgeisydd.

28.27 Fel arfer, bydd yr awdurdod trwyddedu yn darparu copïau o'r sylwadau perthnasol i'r ymgeisydd yn llawn a heb eu golygu. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, pan fydd person yn argyhoeddi'r awdurdod trwyddedu bod ganddo resymau dilys i ofni bygylu neu drais os caiff ei fanylion personol, fel ei enw a'i gyfeiriad, eu datgelu i'r ymgeisydd, gellir golygu copïau o'r sylwadau yn unol â hynny.

28.28 Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd yr awdurdod trwyddedu yn dal i ddarparu rhai manylion i'r ymgeisydd (megis enw'r stryd neu leoliad cyffredinol o fewn stryd), fel y gall yr ymgeisydd baratoi ei ymateb i unrhyw sylw penodol yn llawn.

28.29 Fel arall, efallai y bydd unigolion am gysylltu â'r awdurdod cyfrifol perthnasol neu eu cynghorydd lleol gyda manylion ynghylch sut y maent yn ystyried bod yr amcanion trwyddedu yn cael eu tanseilio fel y gall yr awdurdod cyfrifol wneud sylwadau ar eu rhan os yw'n briodol ac yn gyfiawn gwneud hynny.

28.30 Darperir canllawiau pellach ynghylch sut i wneud sylwadau ar wefan yr awdurdod trwyddedu.

**29 Ymarfer a dirprwyo swyddogaethau**

29.1 Mae Deddf Trwyddedu 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu fel yr awdurdod trwyddedu a sefydlu pwyllgor trwyddedu i fod yn gyfrifol am bob mater sy'n ymwneud â Deddf Trwyddedu 2003. Mae'r Pwyllgor Trwyddedu yn dirprwyo ymhellach i is-bwyllgorau trwyddedu (paneli), neu un neu fwy o swyddogion sy'n gweithredu o dan awdurdod dirprwyedig.

29.2 Ystyrir y bydd llawer o'r swyddogaethau o natur weinyddol i raddau helaeth heb unrhyw feysydd anghydfod canfyddedig. Er effeithlonrwydd a chosteffeithiolrwydd, swyddogion fydd yn cyflawni'r rhain yn bennaf. Bydd gan yr awdurdod trwyddedu, wrth weithredu fel awdurdod cyfrifol sy'n rhoi sylwadau ynghylch ceisiadau am drwydded, rolau ar wahân i swyddogion. Bydd gofyn i un aelod o staff weinyddu'r cais a bydd aelod arall o staff yn gweithredu fel yr awdurdod cyfrifol, gan wneud sylwadau ar y cais.

29.3 Mae'r atodlen isod yn nodi'r dirprwyo tybiedig o swyddogaethau a phenderfyniadau. Er gwaethaf y rhagdybiaeth hon o ddirprwyo, mae'r cyngor yn cadw'r hawl i gyfeirio unrhyw fater at y Pwyllgor Trwyddedu neu'r is-bwyllgor.

**<u>Amserlen dirprwyo swyddogaethau a phenderfyniadau sy'n ymwneud â thrwyddedu</u>**

| **Mater i'w drin** | **Pwyllgor Trwyddedu** | **Is-bwyllgor trwyddedu (paneli)** | **Swyddogion** |
|---|---|---|---|
| Cais am drwydded bersonol | | Os bydd yr heddlu'n gwrthwynebu | Os na wneir gwrthwynebiad |
| Cais am drwydded bersonol ag euogfarnau heb eu disbyddu | | Pob achos | |
| Ystyried dirymu trwydded bersonol yn dilyn euogfarn berthnasol | | Os bydd yr heddlu'n gwneud sylw | Os nad oes gan yr heddlu unrhyw sylwadau i'w gwneud |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cais am drwydded mangre / tystysgrif mangre clwb | | Os gwneir sylwadau perthnasol ac na thynnir y sylwadau hynny'n ôl | Os na wneir unrhyw sylw perthnasol neu os tynnir y sylw yn ôl |
| Cais am ddatganiad dros dro | | Os gwneir sylwadau perthnasol ac na thynnir y sylwadau hynny'n ôl | Os na wneir unrhyw sylw perthnasol neu os tynnir y sylw yn ôl |
| Cais i amrywio trwydded mangre / tystysgrif mangre clwb | | Os gwneir sylwadau perthnasol ac na thynnir y sylwadau hynny'n ôl | Os na wneir unrhyw sylw perthnasol neu os tynnir y sylw yn ôl |
| Cais i amrywio goruchwyliwr dynodedig mangre | | Os bydd yr heddlu'n gwrthwynebu | Pob achos arall |
| Cais am fân amrywiad | | | Pob achos |
| Cais i amrywio trwydded ar fangre gymunedol i gynnwys amod trwydded amgen | | Os bydd yr heddlu'n gwrthwynebu | Pob achos arall |
| Cais i beidio fod yn oruchwyliwr dynodedig mangre | | | Pob achos |
| Cais am drosglwyddo trwydded mangre | | Os bydd yr heddlu'n gwrthwynebu | Pob achos arall |
| Cais am awdurdodau dros dro | | Os bydd yr heddlu'n gwrthwynebu | Pob achos arall |
| Cais i adolygu trwydded mangre / tystysgrif mangre clwb | | Pob achos | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Penderfyniad ynghylch a yw cwyn<br><br>yn amherthnasol, yn wacsaw, yn flinderus ac ati | | | Pob achos |
| Penderfynu ar wrthwynebiad gan yr heddlu neu iechyd yr amgylchedd i hysbysiad digwyddiad dros dro | | Ym mhob achos os na chaiff ei dynnu'n ôl | |
| Atal trwyddedau yn dilyn peidio â thalu ffioedd blynyddol | | | Pob achos |
| Cais am ddosbarthu ffilm | Ceisiadau am gymeradwyaeth ffilmiau sydd eisoes wedi'u dosbarthu gan y BBFC | | Ffilmiau nad ydynt wedi'u dosbarthu gan y BBFC na'r cyngor sir |

## 30. Adolygiadau o drwyddedau

30.1 Dim ond pan fo awdurdod cyfrifol neu berson arall yn honni bod yr amcanion trwyddedu yn cael eu torri y gall y cyngor adolygu trwydded. Bydd awdurdodau cyfrifol yn anelu at roi rhybudd cynnar i ddeiliaid trwyddedau am unrhyw bryderon a nodwyd ar y fangre. Mae'r awdurdod trwyddedu ac awdurdodau cyfrifol eraill yn defnyddio'r broses adolygu fel dewis olaf pan fydd ymyriadau eraill gyda deiliad y drwydded mangre i ddatrys unrhyw broblemau parhaus neu ddiffyg cydymffurfio mewn mangre wedi methu. Mae'n arfer cyffredin ymgysylltu â deiliaid trwydded mangre wrth ddrafftio cynllun gweithredu pan fo hyn yn wir. Gweler adran 36 am ragor o wybodaeth am orfodi a chynlluniau gweithredu.

Dim ond awdurdodau cyfrifol neu bersonau eraill (e.e. trigolion lleol, sefydliadau lleol a chynghorwyr) all wneud cais am adolygiad o drwydded a phenderfynu ar ei ganlyniad mewn gwrandawiad pan gyflwynir tystiolaeth ar gyfer honiadau a wnaed. Mae'n ystyried ceisiadau i adolygu unrhyw drwydded mangre sy'n cynnwys y canlynol yn arbennig o ddifrif:

- defnyddio mangreoedd trwyddedig ar gyfer gwerthu a dosbarthu cyffuriau a reolir a gwyngalchu enillion troseddau cyffuriau
- defnyddio mangreoedd trwyddedig ar gyfer gwerthu a dosbarthu arfau tanio anghyfreithlon
- osgoi hawlfraint mewn perthynas â ffilmiau a cherddoriaeth ddynwaredol
- prynu ac yfed alcohol gan bobl dan oed
- defnyddio mangre drwyddedig ar gyfer puteindra neu werthu pornograffi anghyfreithlon
- defnyddio mangre drwyddedig ar gyfer gemau anghyfreithlon
- defnyddio mangre drwyddedig fel canolfan ar gyfer gweithgareddau troseddol cyfundrefnol
- defnyddio mangre drwyddedig ar gyfer trefnu cam-drin neu ymosodiadau hiliol, homoffobig neu rywiol
- defnyddio mangre drwyddedig ar gyfer gwerthu tybaco neu nwyddau wedi'u smyglo
- defnyddio mangre drwyddedig ar gyfer storio neu werthu nwyddau wedi'u dwyn
- yr heddlu'n cael eu galw'n aml oherwydd anhrefn
- achosion hirfaith a/neu dro ar ôl tro o niwsans cyhoeddus
- bod risg ddifrifol i ddiogelwch y cyhoedd wedi'i nodi ac nad yw'r rheolwyr yn gallu neu'n fodlon ei chywiro
- risg ddifrifol i blant

30.2 Bydd yr is-bwyllgor trwyddedu yn ystyried yr holl dystiolaeth a ddarperir yn y gwrandawiad ac yn rhoi pwysau priodol i'r dystiolaeth honno wrth wneud ei benderfyniad.

30.3 Bydd yr is-bwyllgor trwyddedu yn ystyried yr holl sancsiynau sydd ar gael iddo a ddarperir yn y Ddeddf a'r canllawiau, gan gynnwys peidio â chymryd camau os yw'n briodol.

30.4 Mewn achosion pan fydd amcan trwyddedu yn cael ei danseilio'n ddifrifol, bydd dirymu'r drwydded, hyd yn oed yn y lle cyntaf, yn cael ei ystyried o ddifrif pan fo'n briodol er mwyn sicrhau bod yr amcanion trwyddedu yn cael eu hyrwyddo.

## 31. Polisi effaith gronnus

31.1 O dan Ddeddf Trwyddedu 2003, mae gan awdurdodau trwyddedu'r pŵer i gyflwyno polisi effaith gronnus pan fo tystiolaeth yn dangos bod nifer sylweddol o fangreoedd trwyddedig wedi'u crynhoi mewn un ardal wedi arwain at gynnydd mewn trosedd ac anhrefn, niwsans cyhoeddus, neu'r ddau. Pan gaiff ei fabwysiadu, mae polisi effaith gronnol yn creu rhagdybiaeth y gellir ei gwrthbrofi y bydd ceisiadau am drwyddedau mangre newydd, neu dystysgrifau neu amrywiadau mangre clwb, sy'n debygol o ychwanegu at yr effaith gronnus bresennol fel arfer yn cael eu gwrthod.

31.2 Mae'r canllawiau statudol yn nodi'r camau i'w dilyn wrth ystyried a ddylid mabwysiadu polisi arbennig o fewn y polisi. Mae'r rhain yn cynnwys:

a) Nodi pryder ynghylch trosedd ac anhrefn, diogelwch y cyhoedd, niwsans cyhoeddus, neu amddiffyn plant rhag niwed

b) Ystyried a oes tystiolaeth dda bod trosedd ac anhrefn neu niwsans yn digwydd, neu a oes gweithgareddau sy'n peri bygythiad i ddiogelwch y cyhoedd neu amddiffyn plant rhag niwed

c) Os yw problemau o'r fath yn digwydd, nodi a yw'r problemau hyn yn cael eu hachosi gan gwsmeriaid mangreoedd trwyddedig, neu a yw'r risg o effaith gronnus ar fin digwydd

d) Nodi ffiniau'r ardal lle mae problemau'n digwydd

e) Ymgynghori â'r rhai a bennir gan adran 5(3) o'r Ddeddf Trwyddedu ac, yn amodol ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, cynnwys a chyhoeddi manylion unrhyw bolisi arbennig yn y datganiad polisi trwyddedu

31.3 Ym mis Ebrill 2018, cyflwynodd adran 141 o Ddeddf Plismona a Throseddu 2018 adran 5A newydd i Ddeddf Trwyddedu 2003 yn ymwneud ag asesiadau effaith gronnol. Cyn y gellir cyflwyno ardal asesu effaith, rhaid i'r awdurdod roi rhesymau pam ei fod yn ystyried asesiad effaith gronnol, pa ran neu rannau y maent yn eu hystyried yn yr asesiad effaith gronnol, ac a yw'n ystyried bod yr asesiad effaith gronnol yn berthnasol i bob trwydded neu drwyddedau o fath penodol. Felly, rhaid i'r awdurdod gynnal asesiad trylwyr ac, os cyflwynir asesiad effaith gronnol, rhaid ei adolygu o leiaf bob tair blynedd.

31.5 Nid oes asesiad effaith gronnol ar waith yn Sir Benfro ar hyn o bryd.

Ceir rhagor o wybodaeth am asesiadau effaith gronnol yn y canllawiau statudol.

Canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd o dan adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 – GOV.UK

## 32. Gorchmynion cyfyngu ben bore

32.1 Ar 31 Hydref 2012, gweithredwyd gwelliannau i Ddeddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 sy’n caniatáu i awdurdodau trwyddedu fabwysiadu mesurau newydd er mwyn rheoli eu heconomïau nos.

32.2 Un o’r mesurau hyn yw gorchymyn cyfyngu ben bore, sy’n caniatáu i awdurdodau lleol edrych ar gyfyngu ar werthu alcohol ar amser penodol rhwng hanner nos a 6am.

32.3 Bwriad gorchmynion cyfyngu ben bore yw delio â throseddau ac anhrefn sy’n gysylltiedig ag alcohol, ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans cyhoeddus difrifol nad yw’n uniongyrchol gysylltiedig â mangreoedd trwyddedig. Anogir awdurdodau i edrych ar y berthynas rhwng unrhyw ardal effaith gronnol sy’n bodoli eisoes, os oes un ar waith, ac ardal gorchymyn cyfyngu ben bore arfaethedig.

32.4 Mae gorchymyn cyfyngu ben bore yn cyfyngu ar yr amser y gellir cyflenwi alcohol. Gellir gwahardd cyflenwi alcohol rhwng 12am a 6am ac mae’n berthnasol i drwyddedau mangre, tystysgrifau mangre clwb a hysbysiadau digwyddiadau dros dro. Nid oes unrhyw eithriadau ac eithrio’r mangreoedd hynny sy’n awdurdodi cyflenwi alcohol i breswylwyr sydd yn aros mewn llety dros nos trwy bariau bach a gwasanaeth ystafell.

32.5 Gall gorchymyn cyfyngu ben bore fod yn berthnasol i ardal benodol neu hyd yn oed un stryd – nid oes angen iddo fod ar draws y sir. Gall fod yn berthnasol i ddiwrnodau penodol o’r wythnos, gall nodi gwahanol amseroedd ar gyfer gwahanol ddiwrnodau o’r wythnos, a gall fod yn berthnasol i gyfnodau cyfyngedig o’r flwyddyn neu am gyfnod diderfyn. Ni all fod yn berthnasol ar Nos Galan / Dydd Calan.

32.6 Nid yw gorchmynion cyfyngu ben bore yn effeithio ar oriau awdurdodedig ar gyfer adloniant wedi’i reoleiddio na lluniaeth hwyr y nos.

32.7 Mae mabwysiadu gorchymyn cyfyngu ben bore yn amodol ar broses sy’n cynnwys casglu a dadansoddi tystiolaeth berthnasol ac ymarfer ymgynghori â’r cyhoedd a deiliaid trwyddedau a/neu dystysgrifau mangre clwb. Rhaid i’r penderfyniad i wneud gorchymyn cyfyngu ben bore ar gyfer ardal fod trwy benderfyniad gan y cyngor.

32.8 Rhaid adolygu gorchmynion cyfyngu ben bore o bryd i’w gilydd i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol i hyrwyddo’r amcanion trwyddedu a gellir eu hamrywio neu eu dirymu drwy’r un broses â mabwysiadu.

32.9 Caiff cyflenwi alcohol yn ystod y cyfnod pan fo gorchymyn cyfyngu ben bore mewn grym ei drin fel trosedd adran 136 o dan y Ddeddf (gweithgaredd trwyddedadwy heb awdurdod).

32.10 Ar hyn o bryd, nid oes gan y cyngor orchymyn cyfyngu ben bore, er, os ystyrir bod angen, cynhelir ymgynghoriad llawn cyn mabwysiadu’r ddarpariaeth.

## 33. Gwrandawiadau

33.1 Bydd ceisiadau am drwyddedau a thystysgrifau yn cael eu penderfynu ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau cyfrifol perthnasol. Pan na cheir unrhyw sylwadau, byddant yn cael eu cyhoeddi'n weinyddol gan y Tîm Trwyddedu. Fodd bynnag, rhaid cyfeirio ceisiadau dadleuol at is-bwyllgor trwyddedu'r cyngor i'w penderfynu, oni bai fod pob parti'n cytuno nad oes angen gwrandawiad.

33.2 Mae'r cyfnod rhybudd ar gyfer gwrandawiad y mae'n rhaid ei roi i bob parti perthnasol, a'r wybodaeth y caniateir ei datgelu, yn amrywio yn dibynnu ar y math o gais, yn amodol ar reoliadau. Bydd is-bwyllgor trwyddedu yn cynnwys dri aelod etholedig yn penderfynu ar gais dadleuol a bydd naill ai'n rhoi trwydded, yn rhoi trwydded gyda gwelliannau, neu'n gwrthod cais. Gall unrhyw barti apelio yn erbyn penderfyniad y cyngor i Lys Ynadon.

33.3 Ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod trwydded, gall unrhyw awdurdod cyfrifol neu berson arall ofyn am adolygiad o drwydded neu dystysgrif. Bydd yr is-bwyllgor trwyddedu yn penderfynu ar bob cais am adolygiad.

## 34. Apeliadau

34.1 Mae hawliau apelio ar gyfer partïon nad ydynt yn fodlon â phenderfyniadau'r cyngor wedi'u nodi yn Atodlen 5 i'r Ddeddf. Ac eithrio yn achos trwyddedau personol, rhaid apelio i'r Llys Ynadon lleol. Yn achos trwyddedau personol, rhaid gwneud yr apêl i Lys Ynadon yr ardal lle mae'r awdurdod trwyddedu sydd wedi ystyried y cais (neu unrhyw ran ohono) wedi'i leoli.

34.2 Rhaid i apêl gael ei chychwyn gan yr apelydd drwy roi hysbysiad o'r apêl i'r canlynol:

Clerc i'r Ynadon, Llys Ynadon Hwlffordd, Hawthorn
Rise
Hwlffordd, Sir Benfro,
SA61 2AZ

o fewn cyfnod o 21 diwrnod yn dechrau gyda'r diwrnod y cafodd yr apelydd ei hysbysu gan y cyngor o'r penderfyniad y mae'n cyflwyno apêl yn ei erbyn.

34.3 Wrth benderfynu ar apêl, gall y llys wneud un o'r canlynol:

- gwrthod yr apêl
- rhoi unrhyw benderfyniad arall yn lle y gallai'r cyngor fod wedi'i wneud
- anfon yr achos at y cyngor i'w ddatrys yn unol â chyfarwyddyd y llys

Gall y llys wneud unrhyw orchymyn ynghylch costau ag y mae'n ei ystyried yn briodol.

34.4 Pan fo'n briodol, bydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi gwybodaeth i ymgeiswyr a gwrthwynebwyr ac ati ynghylch eu hawliau i apelio.

## 35 Gweithredu penderfyniad y Llys Ynadon

35.1 Cyn gynted ag y bydd penderfyniad y Llys Ynadon yn hysbys, ni fydd y cyngor yn oedi ei weithredu a chymerir y camau angenrheidiol ar unwaith oni bai fod llys uwch yn gorchymyn iddo atal y fath gamau [er enghraifft, o ganlyniad i adolygiad barnwrol sy'n mynd rhagddo]. Nid yw'r Ddeddf yn darparu ar gyfer unrhyw apêl bellach yn erbyn penderfyniad y Llys Ynadon.

## 36. Gorfodi

36.1 Mae'r awdurdod trwyddedu wedi sefydlu memorandwm cyd-ddealltwriaeth ynghylch gorfodi ar y cyd â Heddlu Dyfed-Powys. Bydd hyn yn darparu ar gyfer targedu mangreoedd problemus a risg uchel y cytunwyd arnynt, ond gyda mangreoedd risg isel y dangosir eu bod yn cael eu gweithredu'n dda yn destun targedu llai llym.

36.2 Mae'r awdurdod trwyddedu yn bwriadu cynnal ymweliadau gorfodi ag eiddo trwyddedig yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau bod unrhyw amodau a osodir fel rhan o'r drwydded yn cael eu cydymffurfio â nhw. Gall yr ymweliadau hyn fod naill ai'n arolygiadau rhagweithiol wedi'u cynllunio yn seiliedig ar y risg a gyflwynir gan y safle, hanes o beidio â chydymffurfio ac ati, neu'n ymweliadau adweithiol o ganlyniad i gwynion.

36.3 Yn gyffredinol, dim ond yn unol ag egwyddorion gorfodi y cytunwyd arnynt ac yn unol â pholisi gorfodi'r cyngor ei hun y cymerir camau gweithredu. I'r perwyl hwn, cynhelir yr egwyddorion allweddol, sef cysondeb, tryloywder a chymesuredd. Mae gan yr awdurdod ystod o opsiynau gorfodi, gan gynnwys:

- Cynnig cyngor/arweiniad (ar lafar neu'n ysgrifenedig)
- Rhybuddion ysgrifenedig anffurfiol
- Rhybuddiadau
- Erlyniadau
- Adolygiad o drwydded

36.4 **Cynllunio gweithredu**

Pan fo mangre yn destun cwynion parhaus oherwydd naill ai diffyg cydymffurfio ag amodau trwydded neu beidio â chynnal yr amcanion trwyddedu, yna yn y lle cyntaf bydd yr awdurdod perthnasol mewn partneriaeth â'r awdurdod trwyddedu yn ceisio ymyrraeth gyda deiliad y drwydded mangre, a/neu oruchwyliwr dynodedig y fangre, er mwyn datrys y mater, gan ddefnyddio dull i osgoi erlyniad neu adolygiad o'r drwydded. Dim ond pan fydd pob parti yn cydweithio ac yn cytuno ar gynllun gweithredu wedi'i ddogfennu y gall hyn weithio. Mater i'r person sy'n gyfrifol am y fangre fydd cynnig camau y gellir eu cymryd er mwyn ceisio datrys y mater. Adolygir y cynllun gweithredu dros gyfnod penodol o amser i sicrhau ei

effeithiolrwydd a'i addasu os oes angen. Pan fydd mangre yn ymgysylltu â'r awdurdod yn gadarnhaol ac yn gallu mynd i'r afael â'r materion yn effeithiol trwy gynllun gweithredu wedi'i ddogfennu, yna ni fydd angen unrhyw gamau ffurfiol. Fodd bynnag, pan nad yw mangreoedd yn ymgysylltu neu'n cydweithredu ag awdurdodau pan fo achosion parhaus o dorri'r rheolau neu pan nad yw'r amcanion trwyddedu'n cael eu cynnal, yna maent mewn perygl o gael eu trwydded wedi'i hadolygu, cael eu herlyn am y troseddau, neu'r ddau.

## 37. Ffioedd

37.1 Ar hyn o bryd, mae'r holl ffioedd wedi'u pennu gan statud ac mae'n ofynnol i'r cyngor godi'r ffioedd fel y manylir yn y Rheoliadau Ffioedd.

37.1 Mae'r Ddeddf a'r rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf yn nodi gofynion ar gyfer ffioedd blynyddol ac yn ei gwneud yn ofynnol bod y ffi yn cael ei thalu ar y dyddiad dyledus, sef bob blwyddyn ar ben-blwydd rhoi'r drwydded yn wreiddiol. Ar hyn o bryd, mae'r ffi wedi'i phennu gan reoliadau. Fodd bynnag, bydd gwelliannau a wnaed gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, pan fyddant yn dod i rym, yn rhoi'r gallu i'r cyngor bennu ffioedd yn lleol i adennill costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu a chydymffurfio â'r Ddeddf. Bydd yr awdurdod trwyddedu yn anfon anfoneb pan fydd y ffi flynyddol yn ddyledus.

37.2 Mae gwelliannau a wnaed i'r Ddeddf gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn rhoi'r pŵer i gynghorau atal trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb pan na thelir y ffi flynyddol sy'n ofynnol gan reoliadau.

37.3 Bydd y cyngor yn atal unrhyw drwydded neu dystysgrif pan na thelir y ffi ofynnol erbyn y 'dyddiad dyledus', sef yn flynyddol ar ben-blwydd y dyddiad y rhoddwyd y drwydded gyntaf. Bydd y cyngor yn dilyn y weithdrefn a nodir isod.

37.4 Ar ôl cael gwybod / darganfod nad yw ffi flynyddol wedi'i thalu, bydd y cyngor yn rhoi gwybod i ddeiliad y drwydded/tystysgrif, yn ysgrifenedig, am y canlynol:

- y bydd y drwydded/tystysgrif yn cael ei hatal am 14 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad
- na fydd yr ataliad yn dod i rym os telir y ffi cyn dyddiad yr ataliad
- os honnir bod gwall gweinyddol wedi digwydd, gall y dyddiad atal fod 21 diwrnod o'r dyddiad dyledus neu ar y dyddiad atal sydd ar yr hysbysiad 14 diwrnod, pa un bynnag sydd ddiweddaraf

Bydd copi o'r hysbysiad hefyd yn cael ei gyflwyno i oruchwyliwr dynodedig y fangre / rheolwr y fangre os nad nhw yw'n ddeiliad y drwydded mangre.

37.5 Os na thelir y ffi erbyn y dyddiad a nodir ar yr hysbysiad, ystyrir bod y drwydded/tystysgrif wedi'i hatal. Bydd deiliad y drwydded/tystysgrif a goruchwyliwr dynodedig y fangre / y rheolwr yn cael gwybod ar unwaith pan fydd yr ataliad yn dod i rym, a byddant yn cael gwybod na all y fangre gynnig unrhyw weithgareddau trwyddedadwy mwyach nes bod y ffi wedi'i thalu a'r ataliad wedi dod i ben. Pan wneir y taliad llawn, bydd y cyngor yn dod â'r

ataliad i ben ar unwaith, ac yn cadarnhau hyn yn ysgrifenedig.

37.6 Pan fydd trwydded/tystysgrif wedi'i hatal a bod gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu darparu, bydd y cyngor yn ystyried erlyn y darparwr am droseddau o dan adran 136 o'r Ddeddf.

## 38 Ardollau hwyr y nos

38.1 Mae ardoll hwyr y nos yn bŵer dewisol, a gyflwynwyd gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, sy'n caniatáu i awdurdodau trwyddedu godi cyfraniad tuag at gostau plismona'r economi nos trwy godi ardoll ar ddeiliaid trwyddedau mangre a thystysgrifau mangre clwb sydd wedi'u hawdurdodi i werthu alcohol. Rhaid i ardoll hwyr y nos fod yn berthnasol ar draws yr awdurdod cyfan ac mae hefyd yn berthnasol i bob mangre lle mae'n rhaid yfed alcohol yn y man gwerthu a phob siop drwyddedig. Nid yw hysbysiadau digwyddiad dros dro wedi'u cynnwys.

Nid yw'r cyngor wedi mabwysiadu ardoll ar hyn o bryd a dim ond ychydig sydd wedi defnyddio'r pŵer dewisol hwn. Diweddarwyd canllawiau Llywodraeth y DU yn 2023 a gellir eu canfod yma:

Canllawiau diwygiedig ar yr ardoll hwyr y nos – GOV.UK

## 39. Mwy o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth am y Ddeddf a pholisi trwyddedu'r cyngor ar gael gan y canlynol:

Tîm Trwyddedu, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir
Hwlffordd, Sir Benfro
SA61 1TP
Ffôn: 01437 764551
E-bost: licensing@pembrokeshire.gov.uk
Gwefan: www.sir-benfro.gov.uk